# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 22 a 29 Ionawr 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

14 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

21 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

25 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

28 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

32 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

37 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cynrychiolaeth y Cymry yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gynrychiolaeth y Cymry ymhlith rhestr anrhydeddau'r flwyddyn newydd? (WAQ31215)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yr oedd Cymru wedi'i chynrychioli'n dda iawn yn rhestr anrhydeddau blwyddyn newydd 2004.

### Iaith Arwyddion Prydain

**Ann Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau pa bortffolio yn y Cabinet sydd â chyfrifoldeb am iaith arwyddion Prydain? (WAQ31310)

**Y Prif Weinidog:** Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio sy'n gyfrifol am faterion cydraddoldeb, ond mae gan bob Gweinidog gyfrifoldeb cyffredinol i sicrhau bod eu portffolios yn rhoi sylw priodol i faterion cydraddoldeb, gan gynnwys defnyddio iaith arwyddion Prydain.

### Cyfrifoldebau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

**Leighton Andrews:** Pwy sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldebau sydd ar ôl o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 dros Tai Cymru, y corff cyhoeddus anadrannol gynt, a thros y Swyddfa Gymreig? (WAQ31472)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn storio cofnodion yn ymwneud â Tai Cymru, y corff cyhoeddus anadrannol gynt, a'r Swyddfa Gymreig ar ran Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Cyfrifoldeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru yw delio â materion diogelu data sy'n deillio'n uniongyrchol o'r cofnodion hyn. Lle bo hynny'n angenrheidiol, mae'r Cynulliad yn gallu cael gafael ar y wybodaeth honno i'r diben o arfer ei swyddogaethau. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Cynulliad sicrhau ei fod hefyd yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998.

### Adeilad Ychwanegol i'r Cynulliad

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ag unrhyw un o Aelodau Pwyllgor y Tŷ ynghylch y cynnig i godi adeilad ychwanegol i'r Cynulliad ar bwys y siambr drafod newydd sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd? (WAQ31473)

**Y Prif Weinidog:** Dim ac ni wn am unrhyw gynnig o'r fath.

### Adeilad Ychwanegol i'r Cynulliad

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Trefnydd ynghylch y posibilrwydd o godi adeilad newydd i'r Cynulliad ar bwys siambr newydd y Cynulliad sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd? (WAQ31490)

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Trefnydd ynghylch y posibilrwydd o gaffael y tir ar bwys safle adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ31491)

**Y Prif Weinidog:** Dim cyn 2004. Yn dilyn y dyfalu yn y wasg am benderfyniad Pwyllgor y Tŷ ar y mater hwn, a gododd yn yr wythnos yn dechrau ddydd Llun 5 Ionawr, cefais fy mriffio am drafodaethau Pwyllgor y Tŷ gan y Trefnydd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Cymraeg yn y Gweithle

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i roi gwybodaeth i gyflogwyr a darpar weithwyr am swyddi sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg, gan ddangos gwerth y Gymraeg yn y farchnad swyddi? (WAQ30869) [W]

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 29 Rhagfyr 2003.*

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Fel rhan o'r broses o lunio cynlluniau iaith Gymraeg, o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cydweithio â chyrff unigol er mwyn sicrhau bod ganddynt fesurau i sicrhau mynediad digonol at siaradwyr Cymraeg sy'n meddu ar y sgiliau priodol. Mae angen hefyd i'r cynlluniau gynnwys disgrifiad o'r camau y dylid eu dilyn i hysbysu'r ffaith bod croeso i siaradwyr Cymraeg ymuno â'r gweithlu. Mae ymgyrch 'Iaith Gwaith' y bwrdd, sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd, yn anelu at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Ym mis Mawrth, bydd y bwrdd hefyd yn cynnal wythnos Cymraeg yn gyntaf, sef cyfres o ddigwyddiadau i annog pobl i siarad Cymraeg yn y gweithle am y tro cyntaf. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Menter a Busnes i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg i wireddu eu potensial ym myd busnes.

### Defnyddio'r Gymraeg

**Owen John Thomas:** Ers cychwyn 'Iaith Pawb', pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i gynyddu'r ystod o weithgareddau dysgu, cymdeithasol a chwaraeon/hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg? (WAQ30878) [W]

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 29 Rhagfyr 2003.*

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar nifer o lefelau. Er enghraifft, sianelir arian ychwanegol tuag at athrawon bro a Mudiad Ysgolion Meithrin, ac mae'r ddarpariaeth Cymraeg i oedolion yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd er mwyn cadw safonau.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn cydweithio'n agos â'i brif bartneriaid, megis y mentrau iaith, cynlluniau gweithredu iaith, Urdd Gobaith Cymru a'r clybiau ffermwyr ifanc, er mwyn cynyddu'r ystod o weithgareddau cymdeithasol a chwaraeon/hamdden sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r bwrdd wrthi'n datblygu prosiectau penodol ar hyn o bryd ar gyfer pobl ifanc, a fydd yn canolbwyntio ar y clybiau ffermwyr ifanc, chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg a phop a roc Cymraeg.

### Marchnata a Hyrwyddo'r Gymraeg

**Owen John Thomas:** Ers cyflwyno 'Iaith Pawb', pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i godi proffil a defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwaith, busnes, cymdeithasol a hamdden drwy farchnata a hyrwyddo'r Gymraeg? (WAQ30879) [W]

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 29 Rhagfyr 2003.*

**Alun Pugh:** Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrthi ar hyn o bryd yn paratoi strategaeth farchnata gyda'r nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd y strategaeth yn ganolog i waith y bwrdd, a bydd yn canolbwyntio ar farchnata'r iaith mewn modd holistig—ymhlith pobl ifanc, yn y sector fusnes, ar lefel gymunedol, a'i throsglwyddiad o fewn teuluoedd. Caiff drafft o'r strategaeth ei chyflwyno i gyfarfod cyhoeddus y bwrdd fis Mawrth, gyda'r bwriad o gael drafft terfynol yn barod erbyn mis Mai.

### Strategaeth Technoleg Gwybodaeth ar gyfer y Gymraeg

**Owen John Thomas:** Ers cyflwyno 'Iaith Pawb, pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i ddatblygu strategaeth technoleg gwybodaeth ar gyfer defnyddio'r Gymraeg ar y rhyngrwyd ac ehangu cymhorthion cyfieithu peirianyddol er mwyn hwyluso defnyddio'r Gymraeg mewn ystod o weithgareddau a sefydliadau? (WAQ30880) [W]

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 29 Rhagfyr 2003.*

**Alun Pugh:** Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am dri mis ar strategaeth technoleg gwybodaeth ar y cyd â Chymru Ar-lein. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yw llywio'r gwaith o lunio strategaeth TG ar gyfer y Gymraeg, gyda'r strategaeth honno yn destun ymgynghori cyhoeddus yn 2004. Yn y cyfamser, mae'r bwrdd yn bwriadu llunio adroddiad cynhwysfawr ar fanteision posibl cyfieithu peirianyddol i'r Gymraeg, ac mae hefyd wedi cyhoeddi canlyniadau ail arolwg annibynnol o wefannau cyrff a chanddynt gynlluniau iaith statudol. Mae'r adroddiad hwnnw yn cynnwys manylion am yr arferion gorau ym maes gwefannau dwyieithog.

### Strategaeth Cyfieithu Genedlaethol

**Owen John Thomas:** Ers cychwyn 'Iaith Pawb', pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i ddatblygu strategaeth gyfieithu genedlaethol i sicrhau cysondeb a datblygu cymhwyster safonol ar gyfer cyfieithwyr? (WAQ30881) [W]

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 29 Rhagfyr 2003.*

**Alun Pugh:** Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio ar ddrafft o'r strategaeth ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o ymgynghori arni yn gynnar yn 2004.

### Castell Gwrych, Abergele

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gastell Gwrych yn Abergele? (WAQ31097)

**Alun Pugh:** Mae castell Gwrych yn adeilad hanesyddol pwysig sydd mewn dwylo preifat. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Cadw, wedi ariannu gwaith argyfwng ac astudiaeth dichonolrwydd, ac wedi nodi y byddai cymorth grant pellach yn cael ei ddarparu ar gyfer cynllun priodol o waith atgyweirio hanesyddol, yn amodol ar werthusiad ariannol.

### Blaenoriaethau Gwario

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau gwario ei adran am y flwyddyn sydd i ddod? (WAQ31098)

**Alun Pugh:** Mae ein blaenoriaethau gwario am y flwyddyn ariannol i ddod wedi'u nodi yn 'Cymru: Gwlad Well' ac wedi'u hadlewyrchu yn y gyllideb derfynol diweddar.

### 'Cymru Greadigol: Creative Future'

**Jenny Randerson:** Pa ddadansoddiad neu asesiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd ar y cynnydd a wnaed yn cyflawni targedau 'Cymru Greadigol: Creative Future'? (WAQ31217)

**Alun Pugh:** Mae'r cynnydd yn erbyn yr wyth cynllun gweithredu y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn cael ei fonitro gan gonsortiwm diwylliannol Cymru'n Creu, sy'n cael adroddiad am bob pwynt gweithredu nad yw wedi'i gwblhau ym mhob un o'i gyfarfodydd. Mae is-grŵp o Cymru'n Creu hefyd yn gweithio ar y fframwaith ar gyfer gwerthusiad manwl o 'Cymru Greadigol: Creative Future', ei nodau a'i amcanion a'i dargedau.

**Cyfrifoldeb am Ddyfodol y Gymraeg**

**Glyn Davies:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i sicrhau bod y cyfrifoldeb am ddyfodol yr iaith Gymraeg yn cael ei rannu gan holl Weinidogion y Cynulliad? (WAQ31237)

**Alun Pugh:** Mae 'Iaith Pawb' yn datgan yn glir y rhennir y cyfrifoldeb dros ddyfodol yr iaith Gymraeg gan holl Weinidogion y Cynulliad a'r swyddogion sy'n eu cynorthwyo. Mae'r Cabinet wedi cytuno i'r polisi hwn ac yn hollol gefnogol ohono.

**Cymeradwyo Cynlluniau Iaith Gymraeg**

**Glyn Davies:** Sawl cynllun iaith Gymraeg newydd a gymeradwywyd ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a sawl un fydd yn cael ei gymeradwyo ym mhob un o'r ddwy flynedd nesaf? (WAQ31240)

**Alun Pugh:** Dros y pedair blynedd diwethaf, cymeradwywyd 106 o gynlluniau iaith Gymraeg newydd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg: 23 yn 1999-2000, 23 yn 2000-01, 32 yn 2001-02 a 28 yn 2002-03. Ni allaf ragweld faint fydd yn cael eu cymeradwyo dros y ddwy flynedd nesaf, gan mai mater i'r bwrdd yw hwnnw.

**Sefydlu Fforwm Iaith**

**Glyn Davies:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd neu sydd ar y gweill i sefydlu fforwm iaith, a pha ymgynghori a gafwyd ar swyddogaethau a strwythur fforwm o'r fath? (WAQ31242)

**Alun Pugh:** Trafodwyd sefydlu fforwm iaith mewn cyfarfod o'r Cabinet yn ddiweddar, a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori'n fuan ar y mater hwn.

**Lleihau Tâl Mynediad i Adnoddau Cyhoeddus**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi cyngor ynghylch dyfarniad diweddar gan Lys Cyfiawnder Ewrop sy'n nodi y gall fod yn anghyfreithlon defnyddio systemau prisio gwahaniaethol i leihau tâl mynediad preswylwyr lleol i adnoddau cyhoeddus, o ran ei effaith ar bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o roi mynediad am ddim i byllau nofio? (WAQ31264)

**Alun Pugh:** Mae'r fenter nofio am ddim genedlaethol wedi cael ei chroesawu'n eang, ac yr oedd peilot haf 2003 ar gyfer pobl ifanc yn llwyddiant enfawr. Mae'r peilot yn cael ei werthuso ar hyn o bryd ac, yn amlwg, bydd unrhyw oblygiadau sy'n deillio o ddyfarniad Llys Cyfiawnder Ewrop yn cael eu hystyried. Mae cyfreithwyr y Cynulliad wrthi ar hyn o bryd yn dadansoddi penderfyniad y llys yn fanwl.

**Penodi Aelodau Cyngor Darlledu Cymru**

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw BBC Cymru wedi'i wahodd i enwebu cynrychiolydd i gymryd rhan yn y weithdrefn benodi ar gyfer aelodau o Gyngor Darlledu Cymru? (WAQ31474)

**Alun Pugh:** Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau o'r fath.

**Ymgynghori â'r Cynulliad**

**Leighton Andrews:** Sut,ar ba ffurf, ac ar ba faterion darlledu a phenodiadau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ymgynghori â'r Gweinidog a'i ragflaenwyr ers creu Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ31475)

**Alun Pugh:** Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ymgynghori â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ysgrifenedig ynglŷn â'r Papur Gwyn ar gyfathrebu, y Mesur Cyfathrebu drafft a'r adolygiad o S4C sydd i'w gynnal yn fuan.

O ran penodiadau, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ymgynghori â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch penodiadau i Awdurdod S4C, Llywodraethwr Cenedlaethol y BBC dros Gymru, ac aelodau cenedlaethol ar gyfer y Comisiwn Teledu Annibynnol, yr Awdurdod Radio a'r Comisiwn Safonau Darlledu.

**Concordat gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon**

**Leighton Andrews:** Pryd cafodd y concordat gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei adolygu ddiwethaf? (WAQ31476)

**Alun Pugh:** Cafodd y concordat gyda'r Adran dros Ddiiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei adolygu ddiwethaf ym mis Mehefin 2000.

**Middleton—Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**

**Nick Bourne:** Pryd oedd y tro diwethaf i'r Gweinidog siarad yn bersonol â rheolwr cyffredinol Middleton—Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru am yr ardd, ac a all roi manylion am y sgwrs hon? (WAQ31477)

**Nick Bourne:** Pryd oedd y tro diwethaf i'r Gweinidog siarad neu gwrdd yn bersonol ag ymddiriedolwyr yr ardd fotaneg genedlaethol, ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau? (WAQ31479)

**Alun Pugh:** Cyfarfûm â'r rheolwr cyffredinol ar 2 Rhagfyr 2003 pan oedd ef, ynghyd â chadeirydd bwrdd yr ymddiriedolwyr, yn cyflwyno eu strategaeth adfer. Mae swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r partneriaid a phartneriaid posibl. Cynhaliais fy nghyfarfod diwethaf gyda swyddogion ar 21 Ionawr 2004.

**Cysylltiad â Chomisiwn yr Elusennau (Middleton)**

**Nick Bourne:** Pa gysylltiad y mae'r Gweinidog wedi'i gael yn bersonol â'r comisiynwyr elusennau ynghylch yr ardd fotaneg genedlaethol? (WAQ31478)

**Alun Pugh:** Nid wyf wedi cael unrhyw gysylltiad personol â'r Comisiwn Elusennau ynghylch gardd fotaneg genedlaethol Cymru.

**Cod Drafft o Wasanaethau Mynediad at Deledu**

**Lorraine Barrett:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch ymgynghoriad y Swyddfa Gyfathrebu ar y cod drafft o wasanaethau i alluogi pawb i fanteisio ar deledu? (WAQ31504)

**Alun Pugh:** Nid wyf wedi cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau ynglŷn â'r ymgynghoriad ar god drafft Ofcom o wasanaethau i alluogi pawb i fanteisio ar deledu.

**Cod Drafft o Wasanaethau Mynediad at Deledu**

**Lorraine Barrett:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â chynrychiolwyr Cyngor Cymru i Bobl Fyddar ynghylch ymgynghoriad Ofcom ar y cod drafft o wasanaethau i alluogi pawb i fanteisio ar deledu? (WAQ31505)

**Alun Pugh:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Chyngor Cymru i Bobl Fyddar, ac nid ydynt ychwaith wedi cysylltu â mi, ynghylch ymgynghoriad Ofcom ar y cod drafft o wasanaethau i alluogi pawb i fanteisio ar deledu.

**Cod Drafft o Wasanaethau Mynediad at Deledu**

**Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod ymgynghoriad Ofcom ynghylch y cod drafft o wasanaethau i alluogi pawb i fanteisio ar deledu yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd? (WAQ31506)

**Alun Pugh:** Mae cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd yn fater i bob corff statudol, sef Ofcom yn yr achos arbennig hwn. Nid oes gan y Cynulliad bwerau i orfodi deddfwriaeth o'r fath.

**Adroddiad PricewaterhouseCoopers ar Middleton**

**Eleanor Burnham:** Beth oedd prif argymhellion adroddiad PricewaterhouseCoopers ar yr ardd fotaneg genedlaethol? (WAQ31527) [W]

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn ag adroddiad PricewaterhouseCoopers ar yr ardd fotaneg genedlaethol? (WAQ31528) [W]

**Alun Pugh:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw adroddiad penodol gan PricewaterhouseCoopers ar ardd fotaneg genedlaethol Cymru. Fodd bynnag, fel yr eglurais yng nghyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar 21 Ionawr, mae PricewaterhouseCoopers yn rhoi cyngor proffesiynol i ardd fotaneg genedlaethol Cymru.

**Grantiau ar gyfer Cerddorfeydd Siambr (Pwrpas)**

**Lisa Francis:** Beth yn benodol y mae grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer cerddorfeydd siambr yn ei dargedu? (WAQ31529)

**Alun Pugh:** Bwriad y cynllun, fel a nodir yng nghanllawiau cyhoeddedig y cynllun, yw cefnogi a datblygu cynulleidfaoedd ar gyfer cerddorfeydd siambr o Gymru drwy gefnogi cyngherddau a gweithgareddau allgymorth.

**Grantiau ar gyfer Cerddorfeydd Siambr (Argaeledd)**

**Lisa Francis:** Pryd y cafodd y grantiau sydd ar gael ar gyfer cerddorfeydd siambr yng Nghymru eu hysbysebu gan Gyngor Celfyddydau Cymru y llynedd? (WAQ31530)

**Alun Pugh:** Cyhoeddwyd hysbysiad Llywodraeth y Cynulliad yn y wasg yn hysbysebu'r ffaith fod arian ar gael ar gyfer 2003-04, a'r dull o ymgeisio, ar 20 Chwefror 2003.

**Grantiau ar gyfer Cerddorfeydd Siambr (Archwiliadau)**

**Lisa Francis:** Faint o archwiliadau (a pha fath o archwiliadau) sydd wedi'u cynnal o gerddorfeydd siambr sydd wedi derbyn grantiau oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru ers gwanwyn 2003? (WAQ31531)

**Alun Pugh:** Cyhoeddais y grantiau a oedd wedi'u dyfarnu ar 1 Gorffennaf 2003. Wedyn cyfarfu swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad a Chyngor Celfyddydau Cymru â chynrychiolwyr o bob cerddorfa i egluro'r gweithdrefnau adrodd. Yr oedd yn ofynnol i bob cerddorfa gyflwyno adroddiad, erbyn 5 Rhagfyr 2003, ar weithgareddau a ariannwyd o dan y cynllun, gan gynnwys recordiad o berfformiad a

ariannwyd o dan y cynllun. Mae’r adroddiadau a’r recordiadau hyn yn cael eu hystyried a byddant yn dylanwadu ar y penderfyniadau ynglŷn â rhan nesaf y cynllun.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Effaith Polisïau’r Llywodraeth ar Gymru Wledig

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi sut y mae polisïau economaidd ei Lywodraeth yn effeithio ar Gymru wledig? (WAQ31204)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mae’r polisïau economaidd a nodwyd yn ‘Cymru’n Ennill’ a ‘Cymru: Gwlad Well’ yn creu’r hinsawdd iawn ar gyfer busnes ledled Cymru ac maent yn gymorth i greu swyddi a datblygu economi lewyrchus ac amrywiol.

### Trafodaethau ynglŷn â Datblygu Economaidd yng Nghymru

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi’u cael yn ddiweddar â Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â datblygu economaidd yng Nghymru? (WAQ31205)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn trafod datblygu economaidd yng Nghymru gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rheolaidd. Cefais gyfarfod hefyd yn ddiweddar gyda’r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant i drafod amryw o faterion economaidd. Yr wyf yn rhagweld trafodaethau pellach gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU, yn rhannol oherwydd adolygiad annibynnol Lyons ar adleoli’r sector cyhoeddus, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ganol y flwyddyn.

### Amseroedd Trenau (Caerdydd Canolog i Paddington Llundain)

**Jenny Randerson:** A yw’r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda’r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol neu gyda First Great Western Trains ynglŷn ag amser y trên olaf o Gaerdydd Canolog i orsaf Paddington Llundain? (WAQ31218)

**Andrew Davies:** Trafodais hyn gyda rheolwr gyfarwyddwr First Great Western Trains ar 11 Rhagfyr 2003. Maent yn adolygu amser y trên olaf er mwyn penderfynu a oes modd canfod ateb ffafriol i’w weithredu ym mis Rhagfyr 2004.

### Cwmnïau sy’n Derbyn Cymorth Grant

**Janet Ryder:** Yng ngoleuni’r ateb i WAQ29227, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi tabl yn dangos nifer y cwmnïau sy’n derbyn cymorth grant, fesul sir? (WAQ31221)

**Andrew Davies:** Gallaf gyflwyno’r wybodaeth a geisir o ran y nifer cyfunol o gynigion o gymorth rhanbarthol dewisol a grant buddsoddi’r Cynulliad yr wyf yn gyfrifol amdanynt. Cyflwynwyd y grant buddsoddi ar 1 Ebrill 2002.

**Cymorth rhanbarthol dewisol a grantiau buddsoddi’r Cynulliad a gynigiwyd fesul awdurdod lleol, ynghyd â blwyddyn y cynnig.**

| Awdurdod unedol | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| Blaenau Gwent | 12 | 11 | 15 | 16 | 31 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7 | 10 | 14 | 29 | 43 |
| Caerffili | 18 | 14 | 15 | 54 | 67 |
| Caerdydd | 12 | 4 | 10 | 35 | 56 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 8 | 9 | 11 | 27 | 52 |
| Ceredigion | 0 | 2 | 2 | 12 | 12 |
| Conwy | 0 | 2 | 6 | 11 | 27 |
| Sir Ddinbych | 4 | 7 | 14 | 30 | 37 |
| Sir y Fflint | 10 | 17 | 12 | 30 | 36 |
| Gwynedd | 3 | 9 | 12 | 34 | 32 |
| Ynys Môn | 8 | 2 | 3 | 7 | 16 |
| Merthyr Tudful | 7 | 3 | 6 | 7 | 19 |
| Sir Fynwy | 3 | 0 | 0 | 5 | 4 |
| Castell-nedd Port Talbot | 5 | 10 | 24 | 38 | 42 |
| Casnewydd | 6 | 3 | 7 | 19 | 14 |
| Sir Benfro | 9 | 3 | 11 | 13 | 25 |
| Powys | 0 | 0 | 1 | 11 | 8 |
| Rhondda Cynon Taf | 13 | 15 | 24 | 55 | 68 |
| Abertawe | 7 | 8 | 9 | 25 | 36 |
| Bro Morgannwg | 5 | 1 | 3 | 11 | 8 |
| Tor-faen | 3 | 8 | 11 | 14 | 40 |
| Wrecsam | 8 | 4 | 1 | 4 | 10 |

### Lleihau Tâl Mynediad i Adnoddau Cyhoeddus

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi cyngor ynghylch dyfarniad diweddar gan Lys Cyfiawnder Ewrop sy'n nodi y gall fod yn anghyfreithlon defnyddio systemau prisio gwahaniaethol i leihau tâl mynediad preswylwyr lleol i adnoddau cyhoeddus, o ran ei effaith ar bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o roi caniatâd i bensiynwyr deithio am ddim ar fysiau? (WAQ31263)

**Andrew Davies:** Mae'r cynllun i ganiatáu i bensiynwyr a phobl anabl deithio am ddim ar fysiau wedi cael croeso cynnes ac mae'n llwyddiant mawr. Mae'r cynllun wedi'i seilio ar breswylfan yn hytrach na chenedligrwydd, ond yn amlwg bydd unrhyw oblygiadau sy'n deillio o ddyfarniad y llys yn cael eu hystyried. Mae cyfreithwyr y Cynulliad wrthi'n dadansoddi'r penderfyniad yn fanwl ar hyn o bryd.

### Erthyglau ar gyfer Atodiad Amcan 1 *The Western Mail*

**Nick Bourne:** Faint o arian y Cynulliad a gafodd ei wario ar gynhyrchu erthyglau ar gyfer atodiad Amcan 1 *The Western Mail* yn Ionawr 2004? (WAQ31311)

**Andrew Davies:** Swyddogion ddrafftiodd fy erthygl olygyddol i ac erthygl Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, ac nid oedd i hynny oblygiadau ariannol ar wahân i amser y swyddogion. Costiodd y gofod hysbysebu a brynodd WEFO £3,318.38 (heb gynnwys treth ar werth). Costiodd eitem MasnachCymru Rhyngwladol am Gymorth Allforio £4,633 (heb gynnwys TAW).

### Creu Swyddi

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer creu swyddi yng Nghymru? (WAQ31316)

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth y Cynulliad i greu swyddi yng Nghymru? (WAQ31452)

**Andrew Davies:** Mae ein polisïau creu swyddi wedi'u nodi yn 'Cymru'n Ennill' a 'Cymru: Gwlad Well'. Gan ddefnyddio'r cronfeydd strwythurol, 'Cymru'n Ennill', a'r cynlluniau gweithredu ar gyfer sgiliau,

arloesi, entrepreneuriaeth, busnes a'r amgylchedd a masnach sy'n mynd law yn llaw ag ef, mae gennym weledigaeth 10 mlynedd glir ar gyfer Cymru. Mae'r ffigurau cyflogaeth ac anweithgarwch yn dangos y dechreuad da iawn yr ydym wedi ei wneud tuag at greu Cymru lle mae busnesau'n hapus i fuddsoddi, tyfu a ffynnu.

**Rhaglen Cymorth i Fusnesau Ethnig**

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr union daliadau a wnaed i unigolion o fewn y rhaglen cymorth i fusnesau ethnig, yn enwedig y prif weithredwr a'r rheolwr gyfarwyddwr, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r bwrdd? (WAQ31436)

**Andrew Davies:** Mae a wnelo rhan o'ch cais â gwybodaeth bersonol ac, wrth ymateb, mae angen imi sicrhau bod hawliau'r unigolion i breifatrwydd yn cael eu diogelu. Yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried a oes modd rhyddhau'r wybodaeth yr ydych yn ei cheisio yn y fath fodd fel ei bod yn gyson â'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yng nghod ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar ddarparu gwybodaeth i Aelodau'r Cynulliad ond nad yw'n mynd yn groes i hawliau unrhyw unigolion. Byddaf yn ysgrifennu atoch pan fyddaf wedi cael cyngor pellach ar y mater hwn.

Mae aelodau'r bwrdd yn derbyn £132 am eu presenoldeb ym mhob un o gyfarfodydd y bwrdd sydd, ar gyfartaledd, yn cael eu cynnal yn fisol.

**Rhaglen Cymorth i Fusnesau Ethnig (Y Drefn Recriwtio)**

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y drefn recriwtio ar gyfer prif weithredwr a rheolwr gyfarwyddwr y rhaglen cymorth i fusnesau ethnig a hefyd ar hil a chrefydd y staff ac aelodau'r bwrdd? (WAQ31437)

**Andrew Davies:** Yr oedd prif weithredwr a chyfarwyddwr gweithrediadau'r rhaglen cymorth i fusnesau ethnig, nad oes ganddi reolwr gyfarwyddwr, ymhlith sefydlwyr y corff, sy'n gwmni preifat. Mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi codi'r angen am i'r bwrdd a'r staff adlewyrchu cyfansoddiad ethnig Cymru gyda'r rhaglen cymorth i fusnesau ethnig, fel a wnaeth gyda phob corff sydd dan gontract iddo i ddarparu gwasanaethau cymorth busnes rheng flaen. Nid yw'r WDA yn gofyn am fanylion o ran hil na chrefydd aelodau'r bwrdd na staff unigol, ac nid yw'r wybodaeth benodol yr ydych wedi gofyn amdani gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ychwaith.

**Rhaglen Cymorth i Fusnesau Ethnig**

**David Davies** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y rôl a chwaraewyd gan Mashuq Ally yn sefydlu'r rhaglen cymorth i fusnesau ethnig? (WAQ31439)

**Andrew Davies:** Ar yr adeg dan sylw, Mashuq Ally oedd pennaeth Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru. Nid yw'r corff hwnnw yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, felly, dylai cwestiynau o'r fath gael eu cyfeirio at y corff ei hun.

**Buddsoddiad yng Nghwm Rhymni Uchaf**

**Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod i mi pa fuddsoddiad y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i wneud tuag at ddatblygiad economaidd yng Nghwm Rhymni Uchaf yn fy etholaeth? (WAQ31440)

**Andrew Davies:** Mae'n anodd rhoi dadansoddiad penodol ar gyfer Cwm Rhymni Uchaf oherwydd cyfyngiadau casglu data. Fodd bynnag, ym Merthyr Tudful a Rhymni, mae 18 o brosiectau sydd wedi cael cymorth Amcan 1, a olygai grantiau o fwy na £8.3 miliwn (erbyn mis Tachwedd 2003). Mae costau llawn y prosiectau hyn yn fwy na £18.6 miliwn, a disgwylir i bron i 110 o swyddi gael eu creu a'u diogelu.

O ran cymorth rhanbarthol dewisol a grant buddsoddi'r Cynulliad, cymeradwywyd 48 o brosiectau ym Merthyr Tudful a Rhymni, a olygai grant o bron i £17 miliwn yn y cyfnod rhwng Gorffennaf 1999 a Rhagfyr 2003. Mae costau cysylltiol llawn y prosiectau yn fwy na £51 miliwn a byddant yn golygu creu neu ddiogelu bron i 2,000 o swyddi.

**Parthau 20 milltir yr awr**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ymestyn parthau 20 milltir yr awr o amgylch Cymru? (WAQ31441)

**Andrew Davies:** Rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad addewid yn ei maniffesto ym mis Mai 2003 i ymestyn y parthau 20 mya. Yr ydym eisoes wedi darparu cyllid ychwanegol i'r awdurdodau lleol i sefydlu parthau 20 mya a chynlluniau eraill diogelwch ar y ffyrdd. Byddwn yn cynyddu'r dyraniad y flwyddyn nesaf i sicrhau bod rhagor o barthau 20 mya yn cael eu sefydlu ar draws Cymru.

**Strategaeth Cerdded a Seiclo Cymru**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bwriada ddatblygu'r cynigion yn y strategaeth cerdded a seiclo i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2003? (WAQ31442)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn ystyried sefydlu grŵp cynghori ar gerdded a seiclo i oruchwylio'r gwaith o wireddu'r cynlluniau a'r syniadau a nodwyd yn y strategaeth.

**Datblygiadau Diweddar ym Mhortffolio'r Gweinidog**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn ei bortffolio? (WAQ31443)

**Andrew Davies:** Mae fy adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 28 Ionawr yn rhoi manylion y datblygiadau diweddaraf yn ymwneud â datblygu economaidd. Dyma'r cyswllt at y ddogfen honno:
http://www.wales.gov.uk/assemblydata/N0000000000000000000000000016688.pdf.

**Dechrau Busnes**

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y nifer o fusnesau a ddechreuodd yn y Gogledd yn 2003? (WAQ31444)

**Andrew Davies:** Yr ystadegau cofrestru ar gyfer TAW sy'n cynrychioli'r ffynhonnell swyddogol fwyaf cynhwysfawr o wybodaeth am fusnesau newydd a ddechreuwyd. Nid yw'r rhain o reidrwydd yn cynnwys y busnesau lleiaf sy'n disgyn islaw'r trothwy TAW. Bydd y wybodaeth sy'n seiliedig ar TAW am 2003 ar gael yn hydref 2004. Yn 2002, cofrestrwyd cyfanswm o 1,465 o fusnesau newydd at ddibenion TAW yng ngogledd Cymru.

**Yr Angen am Ffordd Osgoi Hafod yn Abertawe**

**Peter Black:** A oes unrhyw gynlluniau i ariannu astudiaethau ychwanegol i'r angen am ffordd osgoi Hafod yn Abertawe? (WAQ31445)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu arian drwy'r grant trafnidiaeth i gyngor Abertawe yn 2003-04 ar gyfer astudiaeth drafnidiaeth integredig Hafod. Mae hyn yn golygu cynnal archwiliad manwl o'r gwelliannau posibl i bob cyfrwng trafnidiaeth yn ardal Hafod.

## Hybu Cydraddoldeb

**David Davies:** Beth sy'n cael ei wneud gan y WDA i hybu cydraddoldeb yng Nghymru? (WAQ314446)

**Andrew Davies:** Mae'r WDA yn rheoli amryw o brosiectau o dan raglen Potentia, a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion neilltuol grwpiau a dangynrychiolwyd. Maent yn cynnwys pobl o dan 30 a thros 50, lleiafrifoedd ethnig, rhieni unigol, siaradwyr Cymraeg a phobl anabl. Mae rhaglen menter menywod Cymru yr asiantaeth hefyd yn darparu cymorth dechrau busnes i fenywod.

## Cynyddu Gweithgarwch Economaidd

**Denise Idris-Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu gweithgarwch economaidd yng Nghymru? (WAQ31448)

**Andrew Davies:** Mae'r polisïau economaidd sydd wedi'u nodi yn 'Cymru'n Ennill' a 'Cymru: Gwlad Well' yn amlinellu sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn creu hinsawdd economaidd addas ledled Cymru i ddatblygu economi lewyrchus ac amrywiol. Mae cyfradd y gweithgarwch economaidd wedi cynyddu 1.4 pwynt canradd dros y flwyddyn hyd at y tri mis yn gorffen fis Tachwedd 2003—y cynnydd uchaf o blith holl ranbarthau'r DU. O fewn hynny, mae'r gyfradd gyflogaeth hefyd wedi cynyddu mwy nag mewn unrhyw ranbarth arall yn y DU (o 1.8 pwynt canradd) tra bo'r gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn dal yn is na chyfradd y DU gyfan. Mae nifer y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra yng Nghymru ar lefelau nas gwelwyd ers canol yr 1970au.

## Lefelau Cyflog

**Denise Idris-Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau cyflog yng Nghymru? (WAQ31449)

**Andrew Davies:** Ym mis Ebrill 2003, £414.5 oedd enillion wythnosol crynswth oedolion oedd yn gweithio amser llawn yng Nghymru ar gyfartaledd—cynnydd o 3.7 y cant ers mis Ebrill 2002. Cynyddodd yr enillion wythnosol amser llawn ar gyfartaledd ar draws y DU 2.4 y cant dros yr un cyfnod.

## Strategaeth Trafnidiaeth Rheilffyrdd Llywodraeth y DU

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau sydd wedi'u hamlinellu yn strategaeth trafnidiaeth rheilffyrdd Llywodraeth y DU? (WAQ31450)

**Andrew Davies:** Mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn gweithio tuag at y nod o wireddu blaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol, yn cynnwys Cymru, drwy ei gynllun strategol.

Ar 19 Ionawr, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth fod Llywodraeth y DU yn adolygu'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran buddsoddi yn y rheilffyrdd, a'r newidiadau strwythurol a threfniadaethol sy'n ofynnol er mwyn i'r rheilffyrdd allu gweithredu'n fwy effeithiol er budd teithwyr. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried sut y gellid datganoli rhagor o benderfyniadau am drafnidiaeth gyhoeddus, o fewn fframwaith cydlynol cenedlaethol.

## Ffigurau'r Cyfrifiad ar Ddatblygu Economaidd

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr effaith ar ddatblygu economaidd yng Nghymru, yn sgîl adroddiad y cyfrifiad a gyhoeddwyd eleni gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n dynodi draen dawn o Gymru i Loegr? (WAQ31451)

**Andrew Davies:** Yr oedd adroddiad y cyfrifiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn defnyddio gwybodaeth o'r Arolwg o'r Llafurlu am nifer y graddedigion a gafodd eu geni yng Nghymru sydd erbyn hyn yn byw mewn rhannau eraill o'r DU. Dengys gwybodaeth o'r Arolwg o'r Llafurlu Lleol yng Nghymru fod

120,550 o bobl â graddau a gafodd eu geni yng Nghymru yn byw mewn rhannau eraill o'r DU erbyn hyn, a thynnwyd sylw at y ffaith hon mewn adroddiadau yn y wasg. Fodd bynnag, mae graddedigion yn symud i mewn yn ogystal ag allan, a dengys yr arolwg fod 78,000 o raddedigion yn byw yng Nghymru yn awr a oedd wedi cael eu geni mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'n debygol fod y patrwm drwyddo draw yn debyg i'r patrwm a welir yn rhanbarthau Lloegr y tu hwnt i Lundain a'r de-ddwyrain.

Mae'r Arolwg o'r Llafurlu hefyd yn dangos bod y cynnydd yn nifer y graddedigion sy'n byw yng Nghymru ers yr 1980au cynnar yn debyg i'r cynnydd a welwyd yn y rhan fwyaf o ranbarthau'r DU. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu amryw o strategaethau (yn cynnwys 'Cymru: Gwlad Well', 'Cymru'n Ennill', 'Gwlad sy'n Dysgu', 'Ymgeisio yn Uwch' a'r cynllun gofodol) gyda'r nod o gryfhau Cymru fel man y mae pobl grefftus iawn am fyw ynddo ac y mae busnesau sy'n creu swyddi da am ymsefydlu ynddo.

### Hyder Datblygu Economaidd a Busnes yng Nghymru

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith arian cyhoeddus y DU ar hyder datblygu economaidd a busnes yng Nghymru? (WAQ31453)

**Andrew Davies:** Fel y dywedodd y Sefydliad dros Gydweithredu a Datblygu Economaidd yn ddiweddar:

Mae economi'r DU wedi profi ei fod yn hynod o hydwyth yn ystod y tueddiad tuag i lawr diweddar gan nad yw allbwn ond wedi syrthio ychydig o dan ei botensial. Ar yr un pryd, mae chwyddiant wedi parhau yn agos at y targed, ac mae'r gyfradd ddiweithdra ymysg yr isaf yn y Sefydliad dros Gydweithredu a Datblygu Economaidd. Yn fwy diweddar, bu'r economi yn casglu cryn fomentwm, ymhell ar y blaen i ardal yr ewro. Cynhelir y perfformiad cryf hwn gan ddiwygio strwythurol eang a fframweithiau polisi macro-economaidd cadarn.

Mae economi Cymru wedi perfformio'n gryf o fewn y fframweithiau hyn, sy'n cynnwys y cod sefydlogrwydd cyllidol, a gellir disgwyl iddi barhau i wneud hynny.

### Swyddi Gweithgynhyrchu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddi gweithgynhyrchu yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (WAQ31454)

**Andrew Davies:** Yn ôl yr ymchwiliad busnes blynyddol, yr oedd 18,200 o swyddi gweithwyr cyflog ym maes gweithgynhyrchu yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ym mis Rhagfyr 2002, sef 12 y cant o'r holl swyddi gweithwyr cyflog yn yr ardal honno.

### Pwysigrwydd Twristiaeth

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd twristiaeth i ganolbarth a gorllewin Cymru? (WAQ31455)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn llwyr gydnabod pwysigrwydd twristiaeth i ganolbarth a gorllewin Cymru, ac mae'r rhanbarth yn elwa o'r cynnydd sylweddol yn y cyllid ar gyfer twristiaeth ar lefel ranbarthol. Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi dirprwyo £750,000 i bartneriaeth dwristiaeth de-orllewin Cymru, a £600,000 i bartneriaeth dwristiaeth y Canolbarth ar gyfer 2003-04 er mwyn cynorthwyo'r diwydiant twristiaeth yn yr ardaloedd hynny.

Mae'r bwrdd hefyd wedi dynodi naw ardal dwf dwristiaeth yn rhanbarthau'r Canolbarth a'r Gorllewin ac mae wedi clustnodi mwy na £7.5 miliwn ar gyfer 2001-08 er mwyn datblygu twristiaeth yn yr ardaloedd hynny.

### Ffurflenni Cais Amcan 1 Llwyddiannus

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi copïau o ffurflenni cais Amcan 1 llwyddiannus gan gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad? (WAQ31489)

**Andrew Davies:** Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wrthi ar hyn o bryd yn ystyried caniatáu i ffurflenni unigol gael eu rhyddhau mewn ffordd sy'n gyson â chod ymarfer y Cynulliad ar ganiatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth.

### Diogelu Busnes Canolfannau Galw

**Brynle Williams:** Pa fesurau sydd yn eu lle i ddiogelu busnes canolfannau galw yng Nghymru? (WAQ31557)

**Andrew Davies:** Mae ein strategaeth datblygu economaidd, 'Cymru'n Ennill', yn cydnabod na all Cymru gystadlu gyda chenhedloedd diwydiannol sy'n dechrau sefydlu eu hunain ar sail cost yn unig. Yr ydym wedi rhoi pwyslais clir ar yr angen i hybu arloesi ac ymchwil a datblygu er mwyn creu dyfodol sy'n seiliedig ar gynhyrchion a phrosesau sydd â gwerth ychwanegol uwch. Mae'r angen hwn yn berthnasol i bob sector gweithgarwch economaidd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Michael German:** Pa gyngor y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei roi i Gyngor Dinas Casnewydd ar ei gynlluniau i adeiladu ysgol gynradd ar safle Glebelands i gymryd lle ysgol Durham road? (WAQ30658)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 16 Rhagfyr 2003.*

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Nid yw fy swyddogion na minnau wedi cynnig cyngor i Gyngor Dinas Casnewydd. Yr wyf yn deall fod y prosiect yn cael ei hyrwyddo o dan drefniadau menter cyllid preifat, sy'n dod o fewn portffolio'r Gweinidog Cyllid. Bydd ei swyddogion wedi rhoi cyngor cyffredinol i'r awdurdod ynglŷn â'r materion y mae angen ymdrin â nhw wrth gyflwyno'r achos o blaid sicrhau cymorth menter cyllid preifat. Ysgrifennodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd at arweinydd yr awdurdod ar 15 Tachwedd 2001 am faterion a godwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, ac wedi hynny trefnodd i'w swyddogion friffio'r awdurdod am astudiaeth dirlenwi'r uned ystadegau iechyd am ardaloedd bach.

### Athrawon Bro

**Owen John Thomas:** Faint o athrawon bro a oedd yn cael eu cyflogi gan bob un o'r awdurdodau lleol ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2002-03 a 2003-04? (WAQ30867) [W]

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 29 Rhagfyr 2003.*

**Jane Davidson:** Cyflogwyd 161 o athrawon bro gan yr awdurdodau lleol yn 2002-03 a 163 yn 2003-04. Yn ychwanegol at y ffigurau hyn, mae cydgysylltwyr dalgylchol yng Ngwynedd a Môn yn cyfrannu i'r gwasanaeth athrawon bro. Mae'r niferoedd yn cynnwys athrawon bro amser llawn a rhan amser, ac maent yn seiliedig ar fanylion a gyflwynwyd gan y siroedd eu hunain. Maent yn cyfeirio at y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, nid yn unig at y swyddi a gyllidir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae natur y ddarpariaeth yn amrywio o sir i sir. Yn ogystal, mae'r staff mewn rhai siroedd yn gweithio'n bennaf yn y canolfannau hwyr-ddyfodiaid, ac eraill yn rhannu eu hamser rhwng y canolfannau ac ysgolion yn ôl y galw a'r pwysau sydd arnynt.

**Canolfannau Hwyr-ddyfodiad**

**Owen John Thomas:** Sawl canolfan hwyr-ddyfodiad sydd wedi agor yng Nghymru er mwyn darparu cyrsiau Cymraeg i blant sy'n symud i ardaloedd Cymraeg? (WAQ30868) [W]

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 29 Rhagfyr 2003.*

**Jane Davidson:** Mae 20 o ganolfannau hwyr-ddyfodiaid penodol yng Nghymru. Ym Mhowys a Sir Gaerfyrddin, nid oes canolfannau fel y cyfryw, gyda'r ddarpariaeth yn rhan o'r gwasanaeth athrawon bro.

**Chweched Dosbarth Mewn Ysgolion**

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl y chweched dosbarth mewn ysgolion yn darparu addysg i ddisgyblion ôl-16 yng Nghymru? (WAQ31251)

**Jane Davidson:** Mae'r chweched dosbarth yn dal i chwarae rôl holl-bwysig yn narpariaeth addysg ôl-16 yng Nghymru. Bydd yn esblygu dros amser, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Chwefror 2000 i roi'r cynllun gweithredu addysg a hyfforddiant ar waith. Bydd trefniadau newydd ar gyfer y chweched dosbarth a darparwyr ôl-16 eraill yn cael eu cyflwyno ym mis Awst 2004 i sefydlu system ariannu deg, dryloyw a chyfiawn ar gyfer y dyfodol. Yr wyf yn sicr y bydd ysgolion yn manteisio ar y trefniadau newydd hyn i chwarae rhan lawn yn y gwaith o gyflwyno darpariaeth gost-effeithiol o safon uchel.

**Cyfleoedd i Rieni Ddewis Addysg Gymraeg i'w Plant**

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i rieni ddewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer eu plant pan fyddant yn dechrau ar eu haddysg feithrin? (WAQ31257) [W]

**Jane Davidson:** Mae darparu addysg yn y blynyddoedd cynnar drwy economi gymysg, sy'n cynnwys rhoi cyfle i rieni ddewis addysg cyfrwng Cymraeg, yn hollbwysig i'm polisi ar ehangu'r ddarpariaeth hon. Mae'r cyfnod sylfaen yr wyf yn ei gynnig, a fydd yn darparu cwricwlwm newydd ar gyfer pob plentyn tair i saith oed, yn ehangu'r cyfleoedd hyn. Yr wyf yn bwriadu ychwanegu dwyieithrwydd ac amlddiwylliant fel meysydd dysgu penodol, a bydd hyn yn sicrhau bod gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gael bob dydd mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion nas cynhelir.

Yr wyf hefyd wedi darparu £7 miliwn, £2 filiwn yn 2004-05 a £5 miliwn yn 2005-06, er mwyn hyfforddi 150 o athrawon ychwanegol i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn help mawr i gyflawni ein hamcan i feithrin gallu yn y maes pwysig hwn.

**Grantiau Dysgu'r Cynulliad**

**Jenny Randerson:** Pa ganran o fyfyrwyr addysg bellach y mae'r Gweinidog yn rhagweld fydd yn manteisio ar grantiau dysgu'r Cynulliad yn 2004-2005? (WAQ31276)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn disgwyl i'r nifer o grantiau dysgu'r Cynulliad sy'n cael eu dyfarnu i fyfyrwyr addysg bellach gynyddu'n gyson rhwng blwyddyn academaidd 2002-03 a 2004-05, gan y bydd mwy o ymwybyddiaeth ymysg myfyrwyr fod y grant ar gael. Fodd bynnag, dim ond gwybodaeth rhagarweiniol sydd ar gael am 2003-04 a, chan y bydd yn cymryd rhai blynyddoedd i'r cynllun ennill ei blwyf yn llwyr, ni allaf ragweld pa mor fuan, na pha mor gyflym, y bydd y cynllun yn cyrraedd ei lawn botensial.

**Sianel Deledu ar gyfer Athrawon**

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a fydd y sianel deledu ar gyfer athrawon ar gael yng Nghymru? (WAQ31483)

**Jane Davidson:** Mae'n rhy gynnar i wneud unrhyw benderfyniadau ar hyn o bryd. Yr wyf yn ymwybodol o gynlluniau'r Adran Addysg a Sgiliau i ddarparu sianel deledu ar gyfer athrawon. Mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â'r adran ynglŷn â'r datblygiadau yn Lloegr. Nid yw'r sianel wedi cael ei threialu eto, fodd bynnag, a chaiff ei gwerthuso cyn y gwneir unrhyw benderfyniad i'w darlledu go-iawn. Byddaf yn edrych yn fanwl ar y gwerthusiad hwnnw cyn ystyried yr angen am ddatblygiadau cyffelyb yng Nghymru.

### Lleoliadau Ysgolion i Fyfyrwyr TAR

**Michael German:** Pa ganran o'r myfyrwyr sy'n dilyn cwrs tystysgrif addysg i raddedigion yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Casnewydd sydd wedi cael lleoliad hyfforddi mewn ysgol neu goleg? (WAQ31493)

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a yw myfyrwyr sydd ar y cwrs TAR yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Casnewydd wedi cael lleoliadau priodol? (WAQ31494)

**Jane Davidson:** Nid yw Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd, wedi bod yn cael problemau i drefnu lleoliadau mewn ysgolion i fyfyrwyr ar gyrsiau ôl-radd hyfforddiant cychwynnol athrawon sy'n arwain at statws athro cymwysedig. Yn ogystal, mae 92 y cant o'r myfyrwyr ar gyrsiau TAR (addysg bellach) yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Casnewydd, wedi cael lleoliadau hyfforddi sy'n briodol i'w cwrs. Fodd bynnag, mae cyfuniad o gyfyngiadau ar y gallu i deithio a'r nifer o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n chwilio am leoliadau tebyg yn yr ardal, wedi golygu bod pum myfyriwr TAR (AB) yng Nghasnewydd wedi methu sicrhau lleoliad. Ffactor arall sydd wedi cyfyngu ar y gwaith o ganfod lleoliadau addas yw'r rhwymedigaeth ar y coleg i ystyried ansawdd y profiad sydd ar gael i fyfyrwyr.

Cefais wybod bod y coleg yn ymdrechu i ddatrys y mater mor gyflym â phosibl, a'i fod o'r farn y dylai fod yn bosibl cyrraedd y nifer ofynnol o oriau addysgu yn ystod gweddill y cwrs. Mae hefyd yn adolygu ei drefniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae'r safonau y mae disgwyl i gyrsiau TAR (AB) eu cyrraedd yn cael eu pennu gan Sefydliad Hyfforddi Cenedlaethol Addysg Bellach. Rhaid i gyrsiau gynnwys o leiaf 20 o oriau ymarfer addysgu yng nghyfnod 1, 40 yng nghyfnod 2, a 60 yng nghyfnod 3. Felly, bydd y myfyrwyr yng nghyfnod 3 wedi ymgymryd ag o leiaf 120 o oriau ymarfer addysgu. Mae'r gofyniad fod yn rhaid i ddarlithwyr addysg bellach sy'n newydd-ddyfodiaid i'r maes feddu ar gymhwyster addysgu perthnasol, megis TAR (AB) (neu ei ennill o fewn cyfnod penodedig) wedi'i nodi yn Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Cymru) 2002, Offeryn Statudol 2002 rhif 1663 (W.158).

Mae gofynion cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon sy'n arwain at statws athro cymwysedig wedi'u nodi yng Nghylchlythyr 13/98 y Swyddfa Gymreig. O ran cyrsiau TAR, mae'r cylchlythyr yn pennu bod yn rhaid i'r amser a dreulir gan hyfforddeion mewn ysgolion yn ystod eu hyfforddiant, heb gynnwys gwyliau ysgol, fod yn 24 wythnos o leiaf ar bob cwrs uwchradd amser llawn a 18 wythnos o leiaf ar bob cwrs cynradd ôl-radd amser llawn a phob cwrs ôl-radd rhan-amser.

### Treialu Cyfnodau Dysgu Sabothol

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i dreialu cyfnodau dysgu sabothol i ymarferwyr er mwyn cefnogi'r cyflenwad o staff addysg uwch cyfrwng Cymraeg? (WAQ31502) [W]

**Jane Davidson:** Mae swyddogion wrthi'n chwilio am ddarparwyr hyfforddiant ac yn llunio cynigion ar gyfer gweinyddu'r cynllun y flwyddyn nesaf pan fydd arian ar gael o dan 'Iaith Pawb' ar gyfer rhaglen beilot o wersi Cymraeg i athrawon cymwys. Wrth gwrs, mae athrawon eisoes yn gallu gwneud cais i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru am arian ar gyfer cyfnodau dysgu sabothol o'r rhaglen datblygu proffesiynol parhaus y mae'n ei gweinyddu ar ein rhan.

## Gwaith Cyflenwi (Hyd Amser)

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi am ba hyd o amser y gall athro sydd newydd gymhwyso wneud gwaith cyflenwi? (WAQ31507)

**Jane Davidson:** O dan y rheoliadau cyfredol, Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003, mae'n ofynnol i athrawon sydd newydd gymhwyso gwblhau blwyddyn ymsefydlu pan fyddant yn ymgymryd â'u swydd gyntaf. Rhaid i'r flwyddyn ymsefydlu gynnwys tymhorau cyflawn. Gall athrawon sydd newydd gymhwyso weithio fel athrawon cyflenwi dros dro am hyd at bedwar tymor. Wedi hynny, rhaid iddynt gwblhau blwyddyn ymsefydlu â thymhorau cyflawn. Mae'r cyfyngiad o bedwar tymor yn dechrau cyn gynted ag y mae'r athrawon sydd newydd gymhwyso yn dechrau ar y lleoliad dros dro cyntaf. Mae swydd gyflenwi dros dro yn golygu unrhyw gyfnod cyflogaeth sy'n llai na thymor. Mae contractau cyflenwi am dymor cyfan yn cyfrif tuag at gwblhau'r cyfnod ymsefydlu.

Nid yw contractau cyflenwi o lai na thymor yn cyfrif tuag at y cyfnod ymsefydlu gan fod y broses ymsefydlu wedi'i bwriadu i gynorthwyo ac asesu datblygiad proffesiynol athrawon sydd newydd gymhwyso yn erbyn safonau penodol (safon diwedd y cyfnod ymsefydlu). Yn gyffredinol, nid ystyrir bod cyfnodau addysgu o lai na thymor yn rhoi cyfle digonol i athrawon sydd newydd gymhwyso elwa o'r cymorth ymsefydlu a dangos eu cymhwysedd a'u datblygiad yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'n rhaid cyfyngu ar y cyfnodau cyflenwi er mwyn sicrhau bod pob athro sydd newydd gymhwyso yng Nghymru yn elwa, ar ddechrau ei yrfa, o'r cymorth a'r datblygiad proffesiynol a geir drwy'r drefn ymsefydlu. Mae hefyd yn fanteisiol iawn iddynt ymgymryd â'r cyfnod ymsefydlu cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod yr angen i barhau i adolygu'r trefniadau ymsefydlu, yn enwedig gan eu bod yn newydd. Felly, lansiwyd ymgynghoriad ar 24 Tachwedd 2003 ynghylch cynigion i ddiwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003.

## Gwaith Cyflenwi (Newidiadau a Gynigiwyd i Hyd Amser)

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw newidiadau sy'n cael eu cynnig ynglŷn â'r amser y gall athro sydd newydd gymhwyso wneud gwaith cyflenwi? (WAQ31508)

**Jane Davidson:** Lansiwyd yr ymgynghoriad ynghylch cynigion i ddiwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003 ar 24 Tachwedd 2003, a daeth i ben ar 16 Ionawr 2004.

Yr oedd yr ymgynghoriad yn cynnig y dylid galluogi athrawon sydd newydd gymhwyso yng Nghymru i elwa o'r cymorth y mae'r drefn ymsefydlu yn ei ddarparu drwy ystwytho'r cyfyngiad a bennai mai dim ond am bedwar tymor y gellid gwneud gwaith cyflenwi dros dro. Y cynnig yn yr ymgynghoriad oedd y dylai athrawon sydd newydd gymhwyso sy'n gwneud gwaith cyflenwi dros dro allu parhau i weithio fel athrawon cyflenwi am uchafswm o 12 mis ar ôl mynd y tu hwnt i'r cyfyngiad cyfredol o bedwar tymor ar waith cyflenwi. Gwnaed newidiadau cyffelyb i'r rheoliadau ymsefydlu yn Lloegr ym mis Medi 2003.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 16 Ionawr, a dengys yr ymatebion fod croeso i'r cynnig i gynyddu'r cyfyngiad o bedwar tymor ar waith cyflenwi. Caiff rheoliadau diwygiedig eu cyflwyno mewn Cyfarfod Llawn.

## Mwy o Fyfyrwyr ag Anableddau yn Mynd i Brifysgol

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau i sicrhau bod mwy o fyfyrwyr ag anableddau yn mynd i brifysgol? (WAQ31509)

**Jane Davidson:** Un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yw ehangu mynediad at addysg uwch. Mae hyn yn annog mwy o fyfyrwyr anabl i gyfranogi.

Drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'r Cynulliad yn darparu cyllid penodol o £0.5 miliwn drwy gyfrwng cronfeydd datblygu'r premiwm anabledd a'r ddarpariaeth anabledd.

Disgwylir i bob sefydliad addysg uwch gynhyrchu strategaeth anabledd fel rhan o'i gynllun mwy cyffredinol i ehangu mynediad.

### Fformiwla i Ariannu Ysgolion Cymru

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y fformiwla i ariannu ysgolion Cymru? (WAQ31534)

**Jane Davidson:** Rhaid i bob awdurdod lleol fabwysiadu fformiwla ariannu leol er mwyn pennu cyllidebau dirprwyedig ei ysgolion. Mae'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999 (fel y'u diwygiwyd) fod 75 y cant o'r swm a ddirprwyir i ysgolion uwchradd a chynradd yn deillio o ffactorau sy'n seiliedig ar ddisgyblion, gan mai nifer y disgyblion yw'r brif elfen sy'n pennu anghenion ariannu ysgolion. Gall awdurdodau lleol ddewis dosbarthu'r 25 y cant sy'n weddill drwy ddefnyddio amryw o ffactorau a bennwyd yn y rheoliadau.

Rhaid i awdurdod ymgynghori â'i fforwm cyllideb ysgolion a chyrff llywodraethu a phrifathrawon unigol am unrhyw gynigion i newid ei fformiwla ariannu leol.

Yng ngoleuni'r ymateb i ymgynghoriad cychwynnol y llynedd, byddwn yn ymgynghori'n fuan ynghylch rheoliadau drafft newydd. Byddai'r rhain yn golygu na fyddai rhaid i gyllidebau ysgolion cynradd ac uwchradd gael eu pennu i'r un graddau ar sail ffactorau'n ymwneud â nifer y disgyblion—o 75 y cant i 70 y cant—ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gynnwys ffactor amddifadedd yn eu fformiwlâu ariannu. Pe caent eu cymeradwyo gan y Cynulliad, byddai'r newididau'n dod i rym ar gyfer cyllidebau ysgolion o 2005-06 ymlaen.

### Adolygu Trefniadau Ariannu Ysgolion

**Lorraine Barrett:** Pa arian ychwanegol sydd ar gael i ysgolion ar gyfer plant sy'n ymuno ag ysgol ar ôl i gyllideb yr ysgol gael ei phennu? (WAQ31535)

**Lorraine Barrett:** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu'r ffyrdd y mae ysgolion yn cael eu hariannu pan fydd disgyblion yn ymuno â hwy yn ystod y tymor? (WAQ31536)

**Jane Davidson:** Yn unol â Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999 (fel y'u diwygiwyd), rhaid i awdurdodau gynnwys ffactorau neu feini prawf yn eu fformiwlâu ariannu lleol i'w galluogi i ailbennu cyfran ysgol o'r gyllideb yn ystod blwyddyn ariannol er mwyn cydnabod newidiadau yn nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol, neu'r amcangyfrif o'r nifer, y seiliwyd y penderfyniad ynghylch cyfran yr ysgol o'r gyllideb arno.

Mater i lywodraeth leol yw ariannu darpariaeth cyn-16 mewn ysgolion a gynhelir, gan mai llywodraeth leol sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i anghenion ac amgylchiadau lleol.

### Hyfforddi drwy Brentisiaeth Fodern

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru, fesul blwyddyn, nifer y rhai sydd wedi hyfforddi drwy brentisiaeth fodern ers 1999? (WAQ31580)

**Jane Davidson:** Dangosir y niferoedd sydd wedi cael eu hyfforddi drwy brentisiaethau modern yng Nghymru rhwng 1999 a 2003 yn y tabl isod.

**Nifer oedd yn cael eu hyfforddi drwy brentisiaethau modern sylfaenol, prentisiaethau modern a diplomâu sgiliau modern ar 31 Mawrth 2003**

| | **Niferodd (Miloedd)** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **1999** | **2000** | **2001** | **2002** | **2003** (a) |
| Prentisiaethau modern sylfaenol (b) | 3.9 | 8.1 | 9.9 | 11.1 | 11.2 |
| Prentisiaethau modern | 9.2 | 9.0 | 8.7 | 10.0 | 11.1 |
| Diplomâu sgiliau modern | amherthnasol | amherthnasol | amherthnasol | amherthnasol | 1.3 |
| **Cyfanswm** | **13.1** | **17.1** | **18.6** | **22.0** | **23.6** |

Ffynhonnell: Yr Adran Addysg a Sgiliau cyn 2001-02, cronfa ddata hyfforddeion genedlaethol ELWa o 2001-02 ymlaen.

a) Ym mis Ionawr 2003, cafodd mynediad i raglenni nad oedd ond pobl ifanc yn cael manteisio arnynt yn y gorffennol ei ehangu i ganiatáu i bobl 25 oed a throsodd gyfranogi;
b) Caent eu hadnabod gynt fel hyfforddiaethau cenedlaethol.

### Prinder Crefftwyr, yn Ddynion ac yn Fenywod

**Brynle Williams:** Sut mae'r Gweinidog yn mynd i'r afael â'r prinder crefftwyr, yn ddynion ac yn fenywod, fel plymwyr, trydanwyr a mecanyddion? (WAQ31584)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn disgwyl i'r cyngor sgiliau sector newydd ar gyfer y sector gwasanaethau adeiladu a pheirianneg, a elwir yn Summit Skills, ymgynghori'n eang â chyflogwyr ac eraill a llunio cynllun pum-mlynedd cynhwysfawr i ddatblygu'r gweithlu, a fydd yn ymdrin â'r prinder sgiliau a'r galw yn y sector ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Byddaf hefyd yn disgwyl i Summit Skills weithio mewn cydweithrediad agos â chyflogwyr, Dysgu ac Addysgu Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith, Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gytuno ar y cynllun a'i wireddu.

Byddaf hefyd am i Summit Skills helpu i ysgogi cyflogwyr yng Nghymru i ymwneud mwy â darparu cyfleoedd dysgu a chyfleoedd gwaith priodol, yn enwedig ym maes crefftwyr a thechnegwyr, drwy raglenni megis ein prentisiaethau modern i bob oed.

### Cynyddu Ymwybyddiaeth Myfyrwyr o'r Angen am fwy o Blymwyr, Trydanwyr a Mecanyddion

**Brynle Williams:** Pa gamau penodol y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr o'r angen am fwy o blymwyr, trydanwyr a mecanyddion? (WAQ31585)

**Jane Davidson:** Byddaf yn gweithio gyda, ac yn dibynnu ar, rwydwaith newydd y cynghorau sgiliau sector yng Nghymru i ddatblygu a darparu cyngor a gwybodaeth o ansawdd dda i Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith ac asiantaethau cyflogi eraill ynglŷn â chyfleoedd gwaith a llwybrau gyrfaol yn eu sectorau, er mwyn galluogi pob person o oed gwaith, ac yn y gyfundrefn addysg, i wneud penderfyniadau gyrfaol ar sail gwybodaeth.

### Addysgu Pobl mewn Proffesiynau Crefftus

**Brynle Williams:** Pa arian sydd wedi'i glustnodi er mwyn addysgu pobl mewn proffesiynau crefftus, er enghraifft plymwyr, trydanwyr a mecanyddion? (WAQ31586)

**Jane Davidson:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn 'clustnodi' arian i gael ei gyfeirio tuag at addysgu pobl mewn proffesiynau crefftus megis gwaith plymwyr, trydanwyr a mecanyddion. Mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am ddyrannu cyllid ar gyfer dysgu galwedigaethol drwy ddadansoddiad o'r farchnad lafur sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth.

## Ad-drefnu Ysgolion Uwchradd Wrecsam

**John Marek:** Yn dilyn yr ateb a roddodd i mi ar 19 Ionawr am gyfarfodydd rhyngddi hi a chynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a wnaiff y Gweinidog nodi sawl cyfarfod a gafodd ei swyddogion gyda'r cyngor i drafod yr ad-drefnu sy'n digwydd ar hyn o bryd i ysgolion uwchradd Wrecsam? (WAQ31588)

**Jane Davidson:** Nid yw swyddogion yr adran dros addysg a hyfforddiant wedi cwrdd â chynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i drafod ad-drefnu ysgolion uwchradd yn Wrecsam. Ym mis Rhagfyr 2001, yn ystod ymweliad â Wrecsam, cafodd pennaeth yr is-adran rheoli ysgolion gyflwyniad ar y cynnig gan yr awdurdod. Trafodwyd amseriad y cynnig yn unig.

## Cynigion ELWa ar Ad-drefnu Chweched Dosbarth Ysgolion

**Leighton Andrews:** Faint o ysgolion yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch cynigion ELWa ar ad-drefnu'r chweched dosbarth? (WAQ31604)

**Leighton Andrews:** Pa ysgolion yn y Rhondda yr ymgynghorir â hwy ynghylch cynigion ELWa ar ad-drefnu'r chweched dosbarth? (WAQ31605)

**Jane Davidson:** Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ddogfen ymgynghori ym mis Rhagfyr am reoliadau drafft a fyddai'n galluogi ELWa i wneud cynigion i ad-drefnu'r chweched dosbarth mewn ardaloedd penodol.

Yn unol â'r drefn arferol ar gyfer ymgynghoriadau o'r fath—ac yn unol ag argymhellion prosiect Lleihau'r Baich Biwrocrataidd ar Ysgolion—cafodd y ddogfen ymgynghori ei hanfon at hapsampl o 232 o ysgolion ledled Cymru, yn cynrychioli 10 y cant o holl ysgolion y wlad. Mae'r sampl hon yn cynnwys 17 y cant o'r holl ysgolion sydd â chweched dosbarth. Yn etholaeth y Rhondda, ymgynghorwyd â'r pedair ysgol ganlynol:

1. Ysgol Gynradd Gymunedol Pen-pych, Treherbert
2. Ysgol Fabanod Gilfach Goch, y Porth
3. Ysgol Gynradd Abercerdin, Gilfach Goch
4. Ysgol Gyfun Treorci, Treorci

O fewn ardal ehangach Rhondda Cynon Taf, ymgynghorwyd ag 16 o ysgolion eraill.

Bydd y cyfnod ymgynghori yn parhau tan 2 Chwefror ac, ar ôl yr ymgynghori, caiff y rheoliadau drafft eu hystyried gan y Cynulliad—ynghyd â chychwyn y darpariaethau perthnasol yn Neddf Addysg 2002 y cânt eu gwneud oddi tanynt—yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Hyd nes y bydd darpariaethau perthnasol y Ddeddf wedi cael eu cychwyn a bod y rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud, ni all ELWa wneud cynigion i ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion. Yn wir, ni fyddwn yn disgwyl i unrhyw gynigion o'r fath gael eu ffurfio nes bydd canllawiau trefniadol perthnasol wedi cael eu cyhoeddi a nes bydd y consortia cymunedol dros addysg a hyfforddiant wedi cael cyfle wedi hynny i gyflwyno eu barn i ELWa am ffurf y ddarpariaeth ddysgu ôl-16 yn eu hardaloedd unigol. Bydd angen ymgynghori'n ffurfiol, yn unol â gofynion yn rheoliadau a'r canllawiau, ar unrhyw gynigion o'r fath.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Cais i Gloddio Glo Brig ym Mhwll y Dwyrain

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r cyngor a dderbyniodd oddi wrth swyddogion mewn perthynas â galw i fewn y cais i gloddio glo brig ym mhwll y dwyrain? (WAQ29882)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 19 Tachwedd 2003.*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani wedi cael ei chyhoeddi fel gwybodaeth ychwanegol at y ddogfen hon.

### Cost y Pasportau i Geffylau

**Glyn Davies:** Beth fydd cost y pasportau i geffylau? (WAQ30371)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 8 Rhagfyr 2003.*

**Carwyn Jones:** Bydd cost y pasport yn benderfyniad masnachol i'w wneud gan y cyrff sy'n darparu'r pasportau. Deallaf fod costau o'r fath yn amrywio o £10 i £50, er bod rhai cyrff sy'n darparu pasportau yn diweddaru'r pasportau presennol fel eu bod yn cynnwys y tudalennau meddyginiaeth am £5.

### Profion DNA (Toriadau Unigol o Gig)

**Helen Mary Jones:** Pa ddarpariaethau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud er mwyn medru cynnal profion DNA ar doriadau unigol o gig a'u holrhain yn ôl i'r anifail y daethant ohono? (WAQ30875)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 29 Rhagfyr 2003.*

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn cydnabod mor bwysig yw'r gallu i olrhain er mwyn datblygu'r strategaeth bwyd-amaeth a gyflwynwyd yn 'Ffermio i'r Dyfodol', ac yn arbennig er mwyn sefydlu marchnadoedd â chynnyrch o safon ac sydd â brand premiwm. Mae astudiaeth dichonolrwydd, a ariannwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru ac a gynhaliwyd gan y Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd yn Aberystwyth, wedi bod yn edrych ar sut y gellid gwella'r gallu i olrhain, gan gynnwys yr opsiwn o olrhain DNA o'r 'fferm i'r fforc' yng Nghymru. Mae canlyniadau'r astudiaeth hon yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, ynghyd â materion ehangach yn ymwneud â gwarant fferm, ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, sy'n cynnwys Hybu Cig Cymru.

### Chardon LL (Astudiaethau Porthiant)

**Helen Mary Jones:** Pa astudiaethau porthiant a wnaed mewn perthynas â Chardon LL? (WAQ31209)

**Carwyn Jones:** Dywedir wrthyf fod rhai astudiaethau porthiant wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd fel rhan o'i drafodaethau am asesiad diogelwch Chardon LL. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan y pwyllgor. Mae'r pwyllgor hefyd yn adrodd am astudiaethau porthiant gyda gwartheg godro sy'n dal ar y gweill. Caiff yr astudiaethau hyn eu defnyddio i weld pa mor faethlon yw silwair indrawn T25 ac i ganfod unrhyw effaith ar gynhyrchu llaeth a threuliant.

### Chardon LL (Rhestru)

**Helen Mary Jones:** Pryd y caiff y penderfyniad ynglŷn â rhestru Chardon LL ei wneud? (WAQ31210)

**Carwyn Jones:** Nid oes dyddiad wedi'i bennu eto i restru Chardon LL yn genedlaethol. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud ar y cyd gan Weinidogion y DU. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gofyn am i'r penderfyniad gael ei ohirio nes bydd canlyniadau'r asesiadau fferm gyfan, a ystyriwyd

yn ddiweddar gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd, ynghyd â'r ddadl gyhoeddus am GM, yr adolygiad gwyddonol a'r dadansoddiad o gost a budd wedi cael eu hystyried yn llawn.

**Ystâd Goedwigaeth y Cynulliad (Hectarau o Goetir a Dorrir yn Flynyddol)**

**Helen Mary Jones:** Sawl hectar o goetir sydd wedi'i dorri'n flynyddol ar ystâd goedwigaeth y Cynulliad ers 1999? (WAQ31212)

**Carwyn Jones:** Dyma'r arwynebedd sydd wedi cael ei dorri ar ystâd goedwigaeth y Cynulliad ers 1999:

| | |
|---|---|
| 1 Ebrill 1999 hyd at 31 Mawrth 2000 | 2,212 |
| 1 Ebrill 2000 hyd at 31 Mawrth 2001 | 2,312 |
| 1 Ebrill 2001 hyd at 31 Mawrth 2002 | 2,002 |
| 1 Ebrill 2002 hyd at 31 Mawrth 2003 | 2,472 |
| **Cyfanswm** | **8,998** |

Mae'r ffigurau mewn hectarau ac yn nid ydynt yn cynnwys ffyrdd, rhodfeydd na chwareli.

**Adeiladu Pont Newydd dros yr Afon (Trefynwy)**

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu amserlen ar gyfer rhoi neu wrthod caniatâd i ddymchwel siediau gwartheg hen farchnad wartheg Trefynwy er mwyn adeiladu'r bont newydd dros yr afon? (WAQ31224)

**Carwyn Jones:** Rhoddwyd caniatâd i ddymchwel adeiladau'r hen farchnad wartheg yn Nhrefynwy gan un o'm swyddogion o dan bwerau dirprwyedig ar 12 Ionawr 2004.

**Cyswllt Ffermio (Ceisiadau yng Ngogledd Cymru)**

**Brynle Williams:** Yn dilyn WAQ30848, a wnaiff y Gweinidog restr o'r holl rai yng ngogledd Cymru sydd wedi gwneud cais i Cyswllt Ffermio i addasu adeiladau fferm yn llety gwyliau, y penderfyniad a wnaed ar y cais a'r rhesymau dros gefnogi'r penderfyniad? (WAQ31225)

**Carwyn Jones:** Mae naw cais am y grant twristiaeth fferm a weinyddir gan Fwrdd Croeso Cymru fel rhan o fenter Cyswllt Ffermio wedi dod i law oddi wrth ffermwyr yn ardal etholaeth Gogledd Cymru. Cymeradwywyd pob un o'r naw, a rhoddwyd ymrwymiad grant o £241,327, ar sail cyfanswm o £864,894 fel costau llawn y prosiectau.

**Tir Gerllaw Adeilad Newydd y Cynulliad (Caniatâd Cynllunio)**

**Glyn Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r awdurdod cynllunio lleol ynghylch yr amodau a'r cyfyngiadau cynllunio sy'n perthyn i'r caniatâd cynllunio a roddwyd i'r tir gerllaw adeilad newydd y Cynulliad, y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wrthi'n trafod ei brynu? (WAQ31275)

**Carwyn Jones:** Dim.

**Tir Gerllaw Adeilad Newydd y Cynulliad (Galw i Mewn)**

**Glyn Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r awdurdod cynllunio lleol ynghylch y posibilrwydd o alw i mewn unrhyw gais yn ymwneud â'r tir gerllaw adeilad newydd y Cynulliad, sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd? (WAQ31277)

**Carwyn Jones:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r awdurdod cynllunio lleol ynglŷn â'r posibilrwydd o alw i mewn unrhyw gais yn ymwneud â'r tir gerllaw adeilad newydd y Cynulliad.

## Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

**Kirsty Williams:** Pa gymorth y mae'r Gweinidog yn ei roi i'r parciau cenedlaethol i ddelio â'r llwyth gwaith ychwanegol y maent yn ei wynebu yn sgîl darpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000? (WAQ31279)

**Carwyn Jones:** Rhwng 2001-02 a 2003-04, mae grant y Cynulliad i awdurdodau'r parciau cenedlaethol wedi cynyddu 20 y cant, a chafodd cyfrifoldebau ychwanegol awdurdodau'r parciau o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 eu hystyried yn llawn wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'r gyllideb yn ystod y cyfnod hwn. Mae canllawiau newydd yn cael eu paratoi hefyd i gynorthwyo awdurdodau'r parciau i gyflawni eu rôl statudol o dan y Ddeddf.

## Iawndal i Ffermwyr ar Gyfer Clefydau Hysbysadwy

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gyswllt rhwng yr iawndal i ffermwyr ar gyfer clefydau hysbysadwy ac unrhyw gynnydd yn y risg o'u lledaenu? (WAQ31510)

**Carwyn Jones:** Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar unigolion i roi gwybod am glefydau hysbysadwy pa un a delir iawndal ai peidio. Mae rhwymedigaethau rhyngwladol i fynd i'r afael â heintio ac atal clefydau rhag lledaenu ac, o dan ddeddfwriaeth yr UE, rhaid talu iawndal mewn perthynas â rhai clefydau yn y sector iechyd anifeiliaid.

## Anghysondebau yn y System Iawndal Bresennol

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr anghysondebau yn y system iawndal bresennol sy'n digolledu ffermwyr da byw yn awtomatig ond nid ffermwyr tir âr? (WAQ31511)

**Carwyn Jones:** Mae'r dystiolaeth hyd yma yn awgrymu nad yw'r diffyg iawndal wedi llesteirio camau i reoli iechyd planhigion. Yng ngoleuni'r achosion diweddar o glefyd mewn planhigion, mae'r Cynulliad yn annog y diwydiant, Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i gynnal deialog â'i gilydd ar y mater hwn.

## Tatws sydd wedi'u Heintio â Phydredd Cylch

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi pryd y dylai tatws sydd wedi'u heintio â phydredd cylch gael eu cyflwyno'n ôl yn rhan o'r gadwyn fwyd? (WAQ31512)

**Carwyn Jones:** Dywed erthygl 7 o gyfarwyddeb 93/85 CE fod yn rhaid i datws y dynodir eu bod wedi'u halogi â phydredd cylch gael eu dinistrio neu eu gwaredu yn unol ag Atodiad IV o'r gyfarwyddeb. Rhaid i'r dull gwaredu osgoi unrhyw risg y mae modd ei chanfod y byddai'r organeb yn lledaenu. Nid yw plannu er mwyn cynhyrchu ymhellach, neu werthu'n uniongyrchol fel bwyd dynol, yn ddulliau a ganiateir—nid oherwydd unrhyw bryderon am iechyd dynol ond oherwydd y risg y gallai'r organeb weithio'i ffordd yn ôl i dir amaethyddol.

## Moderneiddio'r Polisi ar Ddadgomisiynu Cyfleusterau Niwclear y DU

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog wedi cael trafodaethau gyda'r Gweinidog cyfatebol yn Llywodraeth y DU ynghylch yr ymgynghoriad cyhoeddus sydd ar y gweill gan yr Adran Masnach a Diwydiant ynglŷn â moderneiddio'r polisi ar ddadgomisiynu cyfleusterau niwclear y DU, ar y cyd â Thrysorlys ei Mawrhydi, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Gweithrediaeth yr Alban, a'r Weinyddiaeth Amddiffyn? (WAQ31525)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn un o'r partïon i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a lansiwyd ar 28 Tachwedd 2003, ynglŷn â moderneiddio polisi mewn perthynas â dadgomisiynu cyfleusterau niwclear. Nid wyf wedi cael trafodaethau gweinidogol ynglŷn â'r mater ond,

ym mis Hydref 2003, ar ran y Prif Weinidog, anfonais ymateb at Patricia Hewitt yn llwyr gefnogi'r cydymgynghoriad hwn .

## Phytophthora Ramorum

**Brynle Williams:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i atal mwy o achosion o'r afiechyd phytophthora ramorum mewn coed? (WAQ31713)

**Carwyn Jones:** Mae'r Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau, ar ran y Cynulliad, wedi bod yn cynnal rhaglen arolygu drylwyr mewn canolfannau adwerthu, meithrinfeydd, gerddi ac ardaloedd plannu eraill sefydledig. Lle bo'r pathogen wedi'i ddarganfod, mae rhagofalon wedi cael eu cymryd i'w gynnwys a'i ddileu. Mae arolygon ategol o goetiroedd y Cynulliad yn cael eu cynnal gan y Comisiwn Coedwigaeth.

## Clefyd Pydredd Cylch Mewn Tatws

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i roi iawndal i'r ffermwyr hynny yn y Canolbarth yr effeithiodd pydredd cylch mewn tatws arnynt y llynedd? (WAQ31716)

**Carwyn Jones:** Nid yw'r Cynulliad, yn yr un modd â gweinyddiaethau eraill y DU ac Ewrop, yn talu iawndal yn uniongyrchol i dyfwyr pan fydd eu cnydau'n cael eu heintio â phydredd cylch. Mae'r Cynulliad, ynghyd â DEFRA, yn annog y diwydiant tatws i archwilio sut y gallai helpu tyfwyr yn awr ac mewn unrhyw achosion o bydredd cylch i'r dyfodol a byddai ganddo ddiddordeb mewn unrhyw gynigion a gâi eu rhoi gerbron.

## Deddfwriaeth er mwyn Cyflymu'r Broses o gael Gwared ar Geir sydd wedi'u Gadael

**Ann Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno deddfwriaeth er mwyn cyflymu'r broses o gael gwared ar geir sydd wedi'u gadael yng Nghymru? (WAQ31717)

**Carwyn Jones:** Cynhaliwyd trafodaethau gyda DEFRA ar leihau'r cyfnodau rhybudd yng Nghymru ar gyfer cerbydau sydd wedi'u gadael fel eu bod yn cyd-fynd â'r rhai a fu mewn grym yn Lloegr ers mis Ebrill 2003. Er nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad y pwerau ar hyn o bryd i ddiwygio'r cyfnodau o rybudd yn y rheoliadau bydd y Gorchymyn nesaf i drosglwyddo swyddogaethau o Swyddfa Cymru yn rhoi'r pwerau heddlu perthnasol i'r Cynulliad o dan Ddeddfau traffig ffyrdd. Gan ein bod yn disgwyl am y trosglwyddiad hwn, yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori â rhanddeiliaid.

## Compostio

**Peter Black:** Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i annog compostio? (WAQ31726)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog compostio mewn nifer o ffyrdd gwahanol:

- Yn ôl y targedau yn strategaeth gwastraff Cymru mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol ailgylchu neu gompostio o leiaf 15 y cant o wastraff dinesig erbyn diwedd 2003-04, a rhaid i 5 y cant o leiaf o'r gwastraff hwnnw gael ei gompostio. Bydd y targedau yn y dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gompostio o leiaf 10 y cant yn 2006-07 a 15 y cant yn 2009-10. Mae grant y Cynulliad tuag at reoli gwastraff yn gynaliadwy yn cael ei dalu i bob awdurdod yng Nghymru i ariannu'r gwaith hwn a gwaith ychwanegol arall i reoli gwastraff.
- Gall yr awdurdodau ddefnyddio'r adnodd hwn i annog deiliaid tai i ddechrau gwneud compost gartref. Ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio sefydlu dull cadarn o alluogi'r awdurdodau lleol i ennill credyd tuag at eu targedau gwastraff am gompostio gartref, a'u bod hwythau'n annog hynny drwy ddosbarthu cyfarpar a chyngor.
- Mae'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd o'r arolwg gwastraff dinesig yn dangos bod compostio wedi cynyddu yng Nghymru o 18,418 tunnell fetrig yn 2000-01 i 35,921 tunnell fetrig yn 2001-02.

- Mae'r Cynulliad hefyd wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu Safon Brydeinig PAS 100 ar gyfer compost sy'n deillio o wastraff fel ffordd o ysgogi'r galw amdano yn y farchnad fel cynnyrch masnachol i'w adwerthu. Mae marchnad ar gael eisoes i gompost sy'n deillio o wastraff mewn cynlluniau adfer tir yng Nghymru.
- Mae'r Cynulliad wedi bod yn noddi'r gwaith o greu cynlluniau gwastraff rhanbarthol, a fydd yn darparu ar gyfer gweithfeydd compostio rhanbarthol a fydd yn cynyddu'r gallu i ddiwallu'r cynnydd disgwyliedig yn y galw. Mae ceisiadau cynllunio wedi cael eu gwneud am sawl gwaith compostio gan awdurdodau lleol, y sector preifat a phartneriaethau yn y sector gwirfoddol.
- Yn y tymor hwy, mae'r Cynulliad hefyd yn cefnogi addysg, ymchwil technegol a gwaith marchnata sy'n cael eu cynnal gan Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru a Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn help i ddatblygu marchnadoedd i gompost yng Nghymru ac i ddatblygu ystod o gynnyrch compost i gyflenwi'r marchnadoedd hynny.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Dyfarndaliad am Wasanaeth a Roddwyd (Etholiadau'r Dyfodol)

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y gweithdrefnau y mae wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau nad yw'r cynghorwyr hynny sy'n derbyn dyfarndaliad am wasanaeth a roddwyd, ac nad ydynt yn sefyll yn etholiadau llywodraeth leol Mehefin 2004, yn gymwys i sefyll mewn etholiadau yn y dyfodol? (WAQ31084) [R]

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mewn termau cyfreithiol, arian rhodd yw'r dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd yn gyfnewid am gyfnod hir o wasanaeth. Mae ymgeiswyr yn gymwys os byddant, ynghyd ag amodau eraill, yn ymddeol adeg etholiadau 2004. Ni ellir rhoi unrhyw gosb ynghlwm wrth dalu arian rhodd ac nid yw'r gyfraith yn caniatáu i'r Cynulliad atal unigolyn rhag sefyll i gael ei ethol yn y dyfodol. Yr wyf yn llwyr ddisgwyl y bydd pawb sy'n derbyn dyfarndaliad yn gweld hynny fel rhywbeth sy'n dynodi diwedd eu gyrfa wleidyddol ar lefel sirol, ac nid wyf yn rhagweld y byddant yn sefyll eto.

### Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd (Nifer y Ceisiadau)

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfanswm y cynghorwyr sydd wedi gwneud cais am ddyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd? (WAQ31085)

**Sue Essex:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb llafar a roddais i Jenny Randerson ar 14 Ionawr 2004 (OAQ31025).

### Dosbarthu Grantiau Gwella Perfformiad

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddosbarthu grantiau gwella perfformiad i gynghorau lleol yn 2004-05? (WAQ31086)

**Sue Essex:** Caiff y grant gwella perfformiad ar gyfer 2004-05 ei ddosbarthu i'r awdurdodau lleol fel a nodwyd yn adran 5 o brosbectws cytundebau polisi 2004-07, a gyflwynwyd i'r awdurdodau ym mis Tachwedd 2003. Bydd y grant gwella perfformiad ar gyfer 2004-05 yn £30 miliwn i gyd, wedi'i ddosbarthu rhwng yr awdurdodau lleol yn ôl eu cyfran berthnasol o elfen gyfredol eu hasesiad o wariant safonol. Fy mwriad yw y dylai'r awdurdodau dderbyn eu grant gwella perfformiad ar ddechrau blwyddyn ariannol 2004-05, cyhyd â bod eu cytundeb polisi wedi cael ei wneud.

### Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynllun dyfarndaliadau i gynghorwyr am wasanaeth a roddwyd? (WAQ31088)

**Sue Essex:** Daeth y rheoliadau, a gyflwynai'r cynllun dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd, i rym ar 16 Hydref 2003. Yr oedd yn ofynnol yn ôl y rheoliadau i gyngor llawn pob awdurdod lleol benderfynu pa un i gyflwyno'r cynllun yn ei ardal ei hun. Mater wedyn i'r awdurdodau oedd yn cyfranogi oedd penderfynu ar y meini prawf cymhwyso, oedd yn cynnwys isafswm o 16 mlynedd o wasanaeth a'r amod y byddai'r cynghorydd yn ymddeol adeg etholiadau llywodraeth leol 2004, a phennu swm y taliad hyd at uchafswm o £20,000. Rhaid oedd gwneud y cais am ddyfarndaliad erbyn 20 Tachwedd 2003. Mae wyth awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu'r cynllun dyfarndaliadau am wasanaeth a roddwyd.

### Paratoadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y paratoadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol eleni? (WAQ31089)

**Sue Essex:** Nid oes gan y Cynulliad gyfrifoldeb am gynnal etholiadau: mater i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yw. Fodd bynnag, mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Etholiadol, swyddogion canlyniadau ac eraill i adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o etholiadau'r Cynulliad. Cynhaliwyd seminar ym mis Tachwedd i alluogi gweinyddwyr etholiadol i rannu profiadau a gwybodaeth o etholiadau'r Cynulliad. Mae gweithgor wedi cael ei sefydlu hefyd o bobl fydd yn ymwneud â'r etholiadau lleol ac Ewropeaidd yn 2004. Nod y grŵp fydd hyrwyddo'r arferion gorau a chysondeb mewn meysydd megis pleidleisio drwy'r post, mynediad i'r anabl, annog mwy o bobl i bleidleisio, hyfforddiant ac unrhyw faterion cysylltiol eraill.

### Darpariaeth i Bobl Anabl mewn Etholiadau Llywodraeth Leol

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth i bobl anabl mewn etholiadau llywodraeth leol? (WAQ31090)

**Sue Essex:** Nid oes gan y Cynulliad gyfrifoldeb am gynnal etholiadau: mater i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yw. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud ei gorau glas i hyrwyddo arferion da yn y maes hwn. Sefydlwyd gweithgor gan swyddogion y Cynulliad a fydd yn cwrdd yn ddiweddarach y mis hwn, gyda'r nod o annog yr arferion gorau yn etholiadau 2004. Mae'r grŵp, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Comisiwn Etholiadol, y Comisiwn Hawliau Anabledd a swyddogion canlyniadau ac etholiadau, yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â hygyrchedd, pleidleisio drwy'r post ac annog mwy o bobl i bleidleisio.

Yn ddiweddar trefnodd y Cynulliad seminar i gyd-fynd â lansio adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar y modd y cynhelir etholiadau. Yr oedd yn canolbwyntio ar rannu'r arferion gorau o fewn y broses etholiadau gan roi sylw neilltuol i faterion hygyrchedd.

Yng ngoleuni adroddiad Polls Apart Cymru, teimlaf ei bod yn hynod bwysig inni ganolbwyntio ar sicrhau bod pobl anabl yn gallu cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Yr wyf hefyd yn credu, er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol i sicrhau democratiaeth hygyrch, y bydd yn hollbwysig cynnwys rhanddeiliaid mewn unrhyw drafodaethau yn y dyfodol, yn enwedig swyddogion canlyniadau, gweinyddwyr etholiadol a'r Comisiwn Hawliau Anabledd.

### Cyllid yr Undeb Ewropeaidd

**Jenny Randerson:** Yn eich araith gyllideb, gwnaethoch gyfeirio at £268 miliwn o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd, sef cynnydd o £47 miliwn. A fyddech gystal â rhoi manylion penawdau'r gyllideb lle rhoddir yr arian hwn? (WAQ31219)

**Sue Essex:** Mae swm o £268 miliwn wedi'i gynnwys yn is-grŵp gwariant Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn y gyllideb derfynol. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth o £234 miliwn ar gyfer gwariant yn erbyn y cronfeydd strwythurol, £33.588 miliwn ar gyfer cyllid adfywio lleol a £0.779 ar gyfer gwasanaethau cefnogi yng nghyd-destun y cronfeydd strwythurol.

**Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd (Taliadau i Ddibynyddion)**

**Glyn Davies:** Ar ôl pa ddyddiadau y gwneir taliadau i ddibynyddion o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003 pe bai cynghorydd yn marw, yn ymddeol neu pe bai'n dioddef salwch? (WAQ31232)

**Sue Essex:** Darperir ar gyfer hyn yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Arian Rhodd) (Aelodau o Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Cymru) 2003, a wnaed yn Senedd y DU gan y Dirprwy Brif Weinidog. Maent yn pennu, pe bai aelod o gyngor yn marw ar ôl iddo ef neu iddi hi ymgymhwyso ond cyn derbyn y taliad, y dylid gwneud taliad i'r cynrychiolydd personol. Ni chaniateir gwneud taliad cyn y diwrnod ar ôl i'r enwebiadau ar gyfer yr etholiadau lleol gau ac ni ddylid gwneud y taliad yn hwyrach na'r pedwerydd diwrnod ar ôl yr etholiad.

Ni allai aelod sydd wedi ymddeol ar sail afiechyd fod yn gymwys i gael dyfarndaliad oni bai ei fod yn dal yn ei swydd ar y dyddiad cymhwyso, sef y dyddiad cau i enwebiadau.

**Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd (Treth Etifeddiaeth)**

**Glyn Davies:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i gynnwys unrhyw daliad a wnaed yn dilyn marwolaeth cynghorydd o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003 yn ystâd y cynghorydd i ddibenion rhwymedigaeth i dreth etifeddiaeth? (WAQ31233)

**Sue Essex:** Nid yw hwn yn fater i'r Cynulliad.

**Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd (Cyhoeddi Enwau Cynghorwyr)**

**Glyn Davies:** A yw'r Gweinidog wedi trafod cyhoeddi enwau cynghorwyr sydd wedi cofrestru diddordeb yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003 gydag arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru? (WAQ31234)

**Sue Essex:** Ydwyf.

**Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y modd y mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y flwyddyn sydd i ddod? (WAQ31315)

**Sue Essex:** Mae ymrwymiad clir i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru dros y flwyddyn sydd i ddod a thu hwnt i hynny wedi'i nodi yn ein hagenda strategol, 'Cymru: Gwlad Well', ac mae dyraniadau'r gyllideb yn adlewyrchu hynny'n glir. Ar y cyd â chyrff partner, drwy fentrau megis rhaglen Cymru ar gyfer gwella, ein nod yw gwella'r safonau ansawdd yn barhaus.

**Canran o'r Dreth Gyngor (Gogledd Cymru)**

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pa ganran o'r dreth gyngor sydd wedi'i chasglu gan gynghorau gogledd Cymru sy'n cael ei chadw gan y cynghorau a pha ganran sy'n cael ei dychwelyd i'r Llywodraeth ganolog? (WAQ31492)

**Sue Essex:** Ni ddychwelir unrhyw arian a gesglir fel rhan o'r dreth gyngor i'r Llywodraeth ganolog. Yn wahanol i'r trethi annomestig cenedlaethol, nid yw'r Llywodraeth ganolog yn ailddosbarthu'r dreth

gyngor o gwbl. Treth leol yw, wedi'i gosod a'i chasglu gan awdurdodau lleol i dalu am wasanaethau lleol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Cyfleusterau Dialysis yr Arennau (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfleusterau dialysis yr arennau yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (WAQ31081)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae argaeledd capasiti dialysis yr arennau yn fater o bwys cynyddol ar draws Cymru. Mae cynllun strategol y rhwydwaith clinigol a reolir a Chomisiwn Iechyd Cymru ar gyfer canolbarth a gorllewin Cymru yn cydnabod yr angen i ddarparu cyfleusterau modern, pwrpasol ar frys yn lle'r cyfleusterau sydd yng Nghaerfyrddin a Bronglais ar hyn o bryd, gan gynyddu'r ddarpariaeth yn y naill leoliad a'r llall a darparu cyfleuster lloeren yn Sir Benfro. Bydd y rhaglen amnewid ac ehangu hon yn un o'r blaenoriaethau uchaf yng nghynllun comisiynu Comisiwn Iechyd Cymru ar gyfer 2004-05, ynghyd â chapasiti ychwanegol yn Abertawe.

### Cynlluniau Gwario yr Adran Iechyd

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r diweddaraf ar gynlluniau gwario ei hadran ar gyfer y flwyddyn i ddod? (WAQ31200)

**Jane Hutt:** Mae'r gyllideb derfynol ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn £4.6 biliwn yn 2004-05. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o £397 miliwn o'i gymharu â 2003-04. Mae fy nghynlluniau gwario ar gyfer 2004-05 yn cynnwys:

- £2.7 biliwn fel dyfarniadau refeniw i'r byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru, a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr 2003 (cylchlythyr iechyd Cymru (2003)124);
- mae arian yn cael ei ddal yn ganolog ar gyfer moderneiddio tâl (y contract i ymgynghorwyr, yr 'Agenda ar gyfer Newid') a 'Hysbysu Gofal Iechyd';
- mae £5 miliwn yn cael ei ddal mewn cyllidebau canolog er mwyn gweithredu adroddiad Townsend, tra'r ydym yn disgwyl am gyngor oddi wrth y Pwyllgor Sefydlog ar y ffordd fwyaf priodol o ddefnyddio adnoddau yn 2004-05;
- neilltuwyd £369 miliwn ar gyfer y contract newydd am wasanaethau meddygol cyffredinol; cafodd £253 miliwn ei roi o dan WHC(2003)124, a rhoddir y symiau sy'n weddill yn ddiweddarach;
- £29 miliwn ar gyfer gofal mewn cartrefi nyrsio; mae'r cyfrifoldeb am y maes hwn wedi trosglwyddo o lywodraeth leol i'r gwasanaeth iechyd gwladol a chaiff yr arian ei ddyrannu cyn gynted ag y bydd y data wedi cael ei ddilysu, i ddangos i ble y dylai gael ei ddosbarthu;
- neilltuwyd £12 miliwn o 1 Ebrill 2004 i gwtogi amseroedd aros;
- bydd £11.2 miliwn yn hyrwyddo ac annog datblygu partneriaethau ffurfiol rhwng y GIG a llywodraeth leol, gan gynnwys £2.2 miliwn i hybu cyfranogiad awdurdodau lleol ar y byrddau iechyd lleol;
- £3 miliwn i helpu i roi'r strategaeth pobl hŷn ar waith; ac
- mae cyllid wedi cael ei glustnodi hefyd ar gyfer y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol gyda'i gilydd i gynorthwyo diwygiadau Wanless.

### Amseroedd Aros

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r diweddaraf inni ar ba mor hir y mae'n rhaid i bobl aros am driniaeth yng Nghymru? (WAQ31201)

**Jane Hutt:** Mae'r ffigurau diweddaraf am amseroedd aros ar gael ar y wefan: http://www.statswales.wales.gov.uk/eng/ReportFolders/Rfview/explorerp.asp?IF_ActivePath=P,280,281. Mae'r rhain yn dangos y nifer o bobl oedd yn aros ddiwedd mis Tachwedd 2003. Bydd y datganiad nesaf, yn dangos nifer y bobl oedd yn aros ddiwedd mis Rhagfyr 2003, yn cael ei gyhoeddi ar 28 Ionawr 2004.

**Tablau Cynghrair Iechyd**

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ganfyddiadau'r tablau cynghrair iechyd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ysgol Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol Prifysgol Caerdydd? (WAQ31202)

**Jane Hutt:** Mae ffordd o fyw person yn ddylanwad pwysig ar ei iechyd . Effeithir ar ffyrdd o fyw unigolion gan amgylchiadau teuluol, amodau byw a gweithio a'r amgylchedd diwylliannol a chymdeithasol-economaidd ehangach.

Yr ydym yn cymryd camau i hyrwyddo atal ysmygu a rhoi'r gorau i ysmygu, byw'n iach a gweithgarwch corfforol mewn amryw o fannau, gan gynnwys ysgolion, y gweithle a'r gymuned. Mae ein strategaeth i wella iechyd yng Nghymru yn cydnabod y materion a godwyd yn adroddiad Prifysgol Caerdydd sydd, yn ei dro, yn cydnabod y cynlluniau yr ydym wedi eu lansio. Mae 'Cymru: Gwlad Well' eisoes yn ymestyn y tu hwnt i'r GIG i wella iechyd a mynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd pobl. Mae'n llwyfan cadarn i adeiladu ymhellach arno. Fel rhan o roi'r adolygiad o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar waith, mae yna gynlluniau i baratoi a gweithredu rhaglen gydlynol, wedi'i seilio ar dystiolaeth, o gamau gweithredu i atal afiechyd a chyfyngu ar glefydau ac anabledd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r gweithredu ar draws y Cynulliad cyfan i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Bydd manteisio ar waith sy'n bodoli'n barod yn y maes atal, a'i gydnabod, yn hanfodol i'r rhaglen waith.

**Moddion ar Bresgripsiwn am ddim nad yw Cleifion yn ei Ddefnyddio**

**Jonathan Morgan:** Beth yw a) ffigurau gwirioneddol a b) amcangyfrifon Llywodraeth Cynulliad Cymru am foddion ar bresgripsiwn am ddim nad yw cleifion yn ei ddefnyddio, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyn? (WAQ31244)

**Jane Hutt:** Nid oes ffordd ddibynadwy o ganfod y ffigurau gwirioneddol am foddion ar bresgripsiwn nad yw'n cael ei ddefnyddio, yn foddion am ddim ac am dâl presgripsiwn. Gwnaed rhai ymdrechion i amcangyfrif y gost, ac mae'r ffigur gorau sydd gennym yn amcangyfrif bod cost moddion ar bresgripsiwn nad yw'n cael ei ddefnyddio, yn foddion am ddim ac am dâl, oddeutu £7 miliwn y flwyddyn yng Nghymru. Pwysleisiaf fod angen bod yn ofalus wrth ymdrin â'r ffigur hwn.

**Gwasanaethau Nyrsio i bobl ag Epilepsi**

**Leighton Andrews:** Pa ganllawiau a roddir i feddygon teulu ynghylch darparu gwasanaethau nyrsio i bobl ag epilepsi? (WAQ31266)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb meddygon teulu a, lle bo hynny'n briodol, wasanaethau ymddiriedolaethau'r GIG, yw trin cleifion sydd wedi cael diagnosis fod ganddynt gyflwr niwrolegol, gan gynnwys epilepsi. Mae nyrsys epilepsi arbenigol yn cael eu cyflogi gan sawl ymddiriedolaeth ar draws Cymru ac fe'u llywodraethir gan ganllawiau a phrotocolau clinigol.

**Hemoffiligion (Trin am Hepatitis C a CJD)**

**Jenny Randerson:** Faint o hemoffiligion yn y Deyrnas Unedig sydd wedi'u trin ym mhob blwyddyn ers 1975 am (a) hepatitis C, a (b) CJD a ddaliwyd o gynhyrchion gwaed oedd wedi'u heintio? (WAQ31278)

**Jane Hutt:** Nid yw nifer y cleifion haemoffilia sydd wedi cael eu trin am hepatitis C yn cael ei gasglu'n ganolog. Nid oes yr un claf haemoffilia wedi cael diagnosis clefyd amrywiolyn Creutzfeldt Jakob a ddaliwyd o gynhyrchion gwaed wedi'u heintio.

### Hemoffiligion (Marwolaeth o Ganlyniad i Ddal Heintiadau o Gynhyrchion Gwaed)

**Jenny Randerson:** Faint o hemoffiligion yng Nghymru a fu farw o ganlyniad i ddal heintiadau o gynhyrchion gwaed ym mhob blwyddyn rhwng 1975 a 1987? (WAQ31280)

**Jane Hutt:** Nid oes gwybodaeth am nifer y cleifion haemoffilia a allai fod wedi marw o hepatitis C a ddaliwyd o gynhyrchion gwaed yn cael ei chasglu'n ganolog. Mae gwybodaeth gan Sefydliad Meddygon Canolfan Haemoffilia'r Deyrnas Unedig yn dangos bod 212 o gleifion â haemoffilia wedi marw o glefyd yr iau hyd at fis Ionawr 2000. Cyflwynwyd trefn i lonyddu firysau a sgrinio am HIV ar gyfer cynhyrchion gwaed gyntaf yn 1985. Nid yw gwybodaeth am nifer y cleifion haemoffilia sydd wedi marw o HIV a ddaliwyd o gynhyrchion gwaed yn cael ei chasglu'n ganolog.

### Darpariaeth Cotiau/Unedau Magu yn Ysbyty Prifysgol Cymru

**Owen John Thomas:** Beth oedd cyfanswm y cotiau/unedau magu yn uned newyddenedigol Ysbyty Prifysgol Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol 2002-03 a 2003-04? (WAQ31312)

**Jane Hutt:** Ar ddiwrnod olaf blwyddyn ariannol 2002-03, yr oedd 25 o welyau wedi'u staffio wedi'u neilltuo yn yr uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Prifysgol Cymru ac, yn ystod y flwyddyn, yr oedd 25.0 ar gael ar gyfartaledd yn ddyddiol. Nid yw data blwyddyn ariannol 2003-04 ar gael eto.

### Darpariaeth Cotiau/Unedau Magu yn Ysbyty Llandochau

**Owen John Thomas:** Beth oedd cyfanswm y cotiau/unedau magu yn uned newyddenedigol Llandochau ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2002-03 a 2003-04? (WAQ31313)

**Jane Hutt:** Ar ddiwrnod olaf blwyddyn ariannol 2002-03, yr oedd 17 o welyau wedi'u staffio wedi'u neilltuo yn yr uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Llandochau ac, yn ystod y flwyddyn, yr oedd 17.3 ar gael ar gyfartaledd yn ddyddiol. Nid yw data blwyddyn ariannol 2003-04 ar gael eto.

### Cyfleusterau Dialysis yr Arennau yng Ngwynedd

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfleusterau dialysis yr arennau yng Ngwynedd? (WAQ31317)

**Jane Hutt:** Mae'r galw o du cleifion am bob math o therapi'r arennau yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, a disgwylir i'r cynnydd hwn barhau am y 10 mlynedd nesaf yn unol â'r rhagamcaniadau poblogaeth.

Mae'r rhwydwaith clinigol a reolir ar gyfer dialysis yr arennau a Chomisiwn Iechyd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i lunio cynllun ar gyfer y Gogledd. Eisoes eleni, mae Comisiwn Iechyd Cymru wedi cytuno i gynyddu'r ddarpariaeth yng Nghonwy a sir Ddinbych yn sylweddol, a bydd y ddarpariaeth honno yn dechrau dod ar gael yng nghanol 2004 neu tua diwedd y flwyddyn. Wrth ddatblygu'r cynllun strategol ar gyfer y Gogledd, caiff y potensial i sefydlu cyfleusterau lloeren ychwanegol ei ystyried er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth a dod â chyfleusterau'n nes at gleifion. Bydd yr agwedd hon ar yr adolygiad yn ystyried holl agweddau amseroedd teithio i gleifion, safonau gofal diogel, gan gynnwys y ddarpariaeth feddygol sydd ar gael, a pha mor gynaliadwy yw'r ddarpariaeth nyrsio.

**Dosbarthiad Cyllid i Fyrddau Iechyd Lleol**

**Alun Cairns:** Yn dilyn WAQ30773, a wnaiff y Gweinidog restru'r dosbarthiad i bob un o'r byrddau iechyd lleol yng Nghymru? (WAQ31397)

**Jane Hutt:** Cafodd y £9.6 miliwn o arian ychwanegol a dargedwyd at amseroedd aros orthopedig ei ddosbarthu i'r byrddau iechyd lleol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Caerffili | £0.853 miliwn |
| Blaenau Gwent | £0.550 miliwn |
| Tor-faen | £0.607 miliwn |
| Sir Fynwy | £0.511 miliwn |
| Casnewydd | £0.879 miliwn |
| Rhondda Cynon Taf | £0.442 miliwn |
| Merthyr Tudful | £0.141 miliwn |
| Caerdydd | £4.000 miliwn |
| Ceredigion | £0.150 miliwn |
| Sir Benfro | £0.050 miliwn |
| Sir Gaerfyrddin | £0.105 miliwn |
| Abertawe | £0.397 miliwn |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £0.950 miliwn |

**Y Cynllun Taliadau Uniongyrchol**

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog enwi'r cynghorau yng Nghymru sydd yn cynnal gwasanaethau cymorth ar gyfer y cynllun taliadau uniongyrchol ac sydd yn cael eu hariannu gan y Cynulliad? (WAQ31435)

**Jane Hutt:** Mae'r ymatebion i'n harolwg o'r awdurdodau lleol yn ymwneud â chynllun taliadau uniongyrchol 2003 yn dangos mai Powys oedd yr unig awdurdod lleol a oedd heb fod wedi sefydlu gwasanaeth cymorth o'r fath ym mis Awst 2003. Deallaf fod Powys yn ystyried cyflwyno cynllun cymorth. Mae nawdd y Cynulliad i'r gwasanaethau taliadau uniongyrchol yn rhan o setliad refeniw llywodraeth leol.

**Ariannu Gwasanaethau Cymorth ar gyfer y Cynllun Taliadau Uniongyrchol**

**Brynle Williams:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu ariannu gwasanaethau cymorth ar gyfer y cynllun taliadau uniongyrchol ym mhob cyngor yng Nghymru? (WAQ31485)

**Jane Hutt:** Yr wyf ar fin ymgynghori ynghylch cynigion i ddatblygu'r cynllun taliadau uniongyrchol ymhellach. Mae'r canllawiau drafft ar daliadau uniongyrchol, sy'n rhan o'r ymgynghori, yn annog awdurdodau lleol i ystyried sefydlu cynlluniau cymorth lleol. Yr wyf wedi darparu £700,000 i'r awdurdodau lleol ar gyfer 2004-05 yn setliad refeniw llywodraeth leol i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu'r cynllun taliadau uniongyrchol.

Caiff y dogfennau ymgynghori eu cylchredeg i'r rhai sydd â buddiant yn y mater a byddant ar gael ar wefan y Cynulliad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Cronfa Datblygu Swyddfeydd Post

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt bresennol y gronfa datblygu swyddfeydd post? (WAQ31262)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Lansiwyd y gronfa datblygu swyddfeydd post ym mis Tachwedd 2002, ac mae dros £1 filiwn wedi cael ei ddyfarnu i 28 o brosiectau unigol o dan gylchoedd 1 a 2. Ym mis Hydref 2003, cyhoeddais i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio fy mod wedi cyfarwyddo swyddogion i gynnal adolygiad o'r gronfa gyda golwg ar symleiddio sut y mae'n cael ei rheoli a'i gweithredu.

### Adroddiad y Comisiwn Digartrefedd

**Peter Black:** Pa waith ymchwil ychwanegol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei gomisiynu yn sgîl adroddiad y Comisiwn Digartrefedd? (WAQ31457)

**Edwina Hart:** Un o argymhellion y Comisiwn Digartrefedd oedd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fabwysiadu strategaeth i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. Yr wyf yn falch o ddweud ein bod wedi cyflawni hyn a bod strategaeth digartrefedd Cymru a'i hamcanion bellach yn rhoi ffocws i'n gwaith ar gyfer y dyfodol. Gwnaed cynnydd o ran gweithredu'r amcanion sy'n deillio o waith ymchwil ac mae rhestr ohonynt i'w gweld yn atodiad A.

- Mae swyddogion yn cyfrannu ar hyn o bryd tuag at astudiaeth a gomisiynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i effaith diwygio'r rheoliadau rhent un ystafell;
- yr ydym wedi darparu cyllid i brosiect Triongl Cymru Tai Trothwy i ymchwilio i ddigartrefedd ymysg pobl lesbiaid, hoyw a deurywiol;
- yr ydym wedi comisiynu ymgynghorwyr allanol i ymchwilio i hanes pobl ddigartref o safbwynt tai;
- yr ydym wedi penodi gwasanaeth gwerthuso elusennau i ymchwilio a llunio canllawiau ar gasglu barn pobl ddigartref am y ddarpariaeth gwasanaethau; ac
- mae Prifysgol Efrog yn cynnal gwerthusiad o'r prif gamau gweithredu a gymerir gan asiantaethau i atal digartrefedd.

**Atodiad A**
Cynnydd ar brosiectau ymchwil a nodwyd yn y strategaeth digartrefedd genedlaethol:

- Arolwg blynyddol o achosion o droi allan gan landlordiaid cymdeithasol wedi'i gyflwyno. Gwaith ymchwil manylach ar y rhesymau dros y troi allan, ynghyd â sut y gellir gostwng nifer yr achosion, wedi'i gychwyn;
- ELWa wedi comisiynu gwaith ymchwil ar anghenion dysgu cleientiaid mewn tai â chymorth, ac mae gan Lywodraeth y Cynulliad gynrychiolaeth ar y pwyllgor llywio;
- Yr ydym wedi comisiynu ORS i werthuso canlyniadau gwaith ymchwil cyfredol i nodi bylchau mewn cyfleoedd dysgu i'r digartref;
- Comisiynwyd gwaith ymchwil i'r dulliau gorau o ymgynghori â'r digartref; i gynnwys datblygu canllawiau arferion da ar gyfer asiantaethau gwirfoddol a statudol;
- Is-adran materion gwledig wedi ariannu gwaith ymchwil i faterion gwledig, gan gynnwys digartrefedd gwledig;
- Canlyniadau prosiect Prifysgol Salford ar fynediad i wasanaethau iechyd ar gyfer y digartref yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd;
- Swyddogion yn cyfrannu ar hyn o bryd i astudiaeth a gomisiynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar effaith diwygio rheoliadau rhent ystafelloedd sengl;
- Cyllid wedi'i ddarparu i brosiect Triongl Cymru, Tai Trothwy i ymchwilio i ddigartrefedd ymhlith lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol;

- Ymgynghorwyr allanol wedi'u comisiynu i wneud gwaith ymchwil ar gefndiroedd tai y digartref;
- Charities Evaluation Service wedi'i benodi i wneud gwaith ymchwil ac i lunio canllawiau ar gasglu barn y digartref ar ddarpariaeth gwasanaethau;

Prifysgol Caerefrog yn cynnal gwerthusiad o'r prif ddulliau gweithredu a ddefnyddiwyd gan asiantaethau i atal digartrefedd.

**Grant Tai Cymdeithasol 2003-04**

**Peter Black:** Faint o'r grant tai cymdeithasol ar gyfer 2003-04 oedd wedi'i ymrwymo ar 1 Ionawr 2004? (WAQ31458)

**Edwina Hart:** Am y cyfnod yn gorffen 31 Rhagfyr 2003, mae cyllideb y grant tai cymdeithasol yn dangos ymrwymiad o £31,387,024.79. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y taliadau grant a wnaed hyd yma yn 2003-04, ymrwymiadau grant yn deillio o gymeradwyaeth a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol a grantiau sydd wedi'u hailgylchu yn deillio o waredu tai gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

**Cronfa'r Cynulliad i Ymladd yn Erbyn Troseddu**

**Denise Idris-Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cronfa gwerth £100 miliwn i ymladd yn erbyn troseddu? (WAQ31459)

**Edwina Hart:** Mae elfennau'r gronfa ymladd yn erbyn troseddu eisoes wedi'u sefydlu, ac mae'r gronfa yn dod ag amryw o ffrydiau cyllido ynghyd yn un pecyn newydd penodol. Bydd y gronfa ymladd yn erbyn troseddu yn ein galluogi i fwrw ymlaen ag un o'n haddewidion allweddol—adeiladu cymunedau saff a chryf lle nad yw pobl yn byw gan ofni troseddu. Mae cysylltiad rhyngddi hefyd â'n penderfyniad i fynd i'r afael â throseddu sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac i wella'r gwasanaethau triniaeth i bobl sy'n gaeth i gamddefnyddio sylweddau.

**Undebau Credyd**

**Denise Idris-Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch datblygu undebau credyd yng Nghymru? (WAQ31460)

**Edwina Hart:** Mae hyrwyddo a chefnogi undebau credyd yn rhan o agenda ehangach Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu economi gymdeithasol gynaliadwy ac adfywio cymunedau difreintiedig Cymru.

Tanlinellir ein hymrwymiad i ddatblygu undebau credyd yng Nghymru gan gyllid o bron i £1.5 miliwn a roes y Cynulliad ar gyfer strategaeth undebau credyd Cymru dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn wedi galluogi canolfan gydweithredol Cymru i gyrchu at gronfeydd strwythurol Ewropeaidd sy'n werth mwy na £4 miliwn .

Bydd yr ymrwymiad hwn i ddatblygu undebau credyd yn parhau dros y tair blynedd nesaf, a bydd undebau credyd, fel rhan o'r mudiad cydweithredol ehangach, yn elwa o fwy o gymorth yn sgîl partneriaeth rhwng canolfan gydweithredol Cymru a Llywodraeth y Cynulliad. Caiff oddeutu £750,000 o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd eu defnyddio ar gyfer y prosiect 'cadw cyfoeth drwy undebau credyd'.

**Diogelwch Cymunedol yn y Cymoedd**

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddiogelwch cymunedol yn y Cymoedd? (WAQ31461)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gefnogi partneriaethau diogelwch cymunedol wrth iddynt roi strategaethau lleol ar waith, sy'n cael effaith sylweddol ar droseddu ac anhrefn

yn y Cymoedd. Bydd y ffaith fod gofyn erbyn hyn i'r partneriaethau lunio strategaethau ar gamddefnyddio cyffuriau hefyd yn golygu bod modd ymateb mewn ffordd fwy penodol i broblemau deuol cyffuriau a throseddu. Yr ydym wedi darparu cyllid newydd sylweddol, ac mae'r partneriaethau wedi cael eu hysbysu am ddyraniadau cyllido tair blynedd o'r gronfa Cymunedau Diogelach newydd. Mae diogelwch cymunedol yn dal i fod yn flaenoriaeth uchel mewn llawer o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac mae'r heddlu'n cynnig cymorth gweladwy i lawer ohonynt gyda phlismyn cymunedol dynodedig neu blismyn cymorth cymunedol.

### Ailgategoreiddio Canabis

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei thrafodaethau gyda phrif gwnstabliaid Cymru ynghylch gweithredu'r gofynion o ran ailgategoreiddio canabis, sy'n dod i rym ar 29 Ionawr 2004? (WAQ31462) [R]

**Edwina Hart:** Yr wyf yn siarad yn rheolaidd â phrif gwnstabliaid Cymru am amrywiaeth eang o faterion.

O 29 Ionawr, bydd canabis yn parhau i fod yn gyffur anghyfreithlon. Mae'n cael ei ailgategoreiddio o ddosbarth B i ddosbarth C, a bydd meddu arno yn dal i fod yn drosedd sy'n dwyn cosb llymaf o ddwy flynedd o garchar. Mae'r gosb drymaf am gyflenwi'r cyffur i eraill yn dal i fod yn 14 mlynedd o garchar.

Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu wedi cyhoeddi canllawiau ar weithredu'r newidiadau hyn yn y gyfraith, ac yr wyf yn siŵr y bydd y pedwar awdurdod heddlu yng Nghymru yn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu mewn modd cyson ar draws y wlad.

### Y Gwasanaeth Tân

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiadau o fewn y gwasanaeth tân yng Nghymru? (WAQ31463) [R]

**Edwina Hart:** Ar 24 Medi, cyflwynais fy natganiad ar ddatganoli'r gwasanaeth tân ac achub i Gymru. Ynddo, nodais fy mwriad i weithio mewn partneriaeth â phawb sydd â buddiant yn y maes i sicrhau bod y cyfrifoldeb yn cael ei ddatganoli'n esmwyth, ac i weithio gyda'r Llywodraeth i foderneiddio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod gennym wasanaeth tân ac achub sy'n gallu diwallu anghenion pobl Cymru, ond sydd hefyd yn gallu chwarae ei rôl o ran ymateb i baratoadau sifil a gwrthsefyll ehangach drwy'r DU.

Mae'r Mesur Tân a Gwasanaeth Achub wedi cael ei gyhoeddi erbyn hyn a bydd yn dechrau ar ei daith drwy'r Senedd. Bu swyddogion y Cynulliad â rhan yn y gwaith o lunio manylion y Mesur ac maent yn cynnal deialog parhaus, fel yr wyf finnau, â'n cymheiriaid yn Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ynglŷn â'r datganoli sy'n parhau a materion eraill ôl-ddatganoli.

Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach pan fydd y trafodaethau wedi symud ymlaen yn sylweddol.

### Tai Gwag yng Nghefn Gwlad

**Nick Bourne:** Pa gamau mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem o dai gwag yng nghefn gwlad Cymru? (WAQ31464)

**Edwina Hart:** Mae gan awdurdodau lleol bwerau gorfodi eisoes i ddelio â thai gwag. Gallant gyflwyno rhybuddion gwella, mae ganddynt y pŵer i fynd i mewn i dai a gwneud gwaith arnynt a gallant hefyd brynu tai drwy orfodaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi annog yr awdurdodau i ddatblygu strategaethau lleol ar dai gwag gan wneud defnydd llawn o'r pwerau hyn. Yr ydym hefyd wedi ymgynghori'n ddiweddar ynghylch trefniadau newydd arfaethedig a fydd yn atgyfnerthu ac yn ehangu'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau.

**Gwella Safon Tai yng Nghymru**

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth y Cynulliad i wella safon tai yng Nghymru? (WAQ31467)

**Edwina Hart:** Mae ein cynlluniau eang i wella tai yng Nghymru wedi'u nodi yn ein strategaeth dai genedlaethol. Maent yn gynnwys ein gweledigaeth o ran y safon yr ydym am ei gwireddu ym mhob tŷ yng Nghymru a'n targed y dylai pob tŷ cymdeithasol gyrraedd y safon honno erbyn 2012. Mae'r newidiadau a wnaed gennym yn ddiweddar i'r trefniadau adnewyddu yn y sector preifat yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol i ddelio ag adnewyddu tai hŷn.

**Rôl Tai Fforddiadwy ym Maes Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl tai fforddiadwy ym maes cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio? (WAQ31468)

**Edwina Hart:** Ein gweledigaeth o ran tai yng Nghymru yw y dylai pawb gael y cyfle i fyw mewn tai fforddiadwy, o safon dda, a gallu dewis lle maent yn byw a phenderfynu pa un ai prynu ynteu rentu sydd orau iddynt hwy a'u teuluoedd. Mae 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru', ein strategaeth dai genedlaethol, yn nodi llawer o ffyrdd posibl o ymdrin â materion amddifadedd ac anghyfiawnder cymdeithasol drwy gyfrwng tai. Yr ydym yn dal i ymrwymo i'w gwireddu.

Bydd gwella holl dai Cymru i gyrraedd y safon ansawdd erbyn 2012 yn hwb pwysig i adfywio cymdeithasol ac economaidd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig drwy wella tai, denu mewnfuddsoddiad a chreu swyddi. Law yn llaw â hyn, bydd y rhaglen grantiau tai cymdeithasol yn parhau i ddarparu adnoddau fel bod modd darparu tai fforddiadwy ychwanegol i ddiwallu'r anghenion sy'n codi ledled Cymru.

**Tai yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar dai yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (WAQ31469)

**Edwina Hart:** Dros y misoedd diwethaf gwelwyd rhai datblygiadau cadarnhaol ym maes tai yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Bydd cymorth ariannol y Cynulliad tuag at swydd swyddog galluogi ym maes tai yng nghefn gwlad yn ne Powys a gogledd Sir Fynwy yn gyfle i edrych yn fanwl ar faterion tai yng nghefn gwlad ac i roi cymorth i gymunedau lleol i ganfod atebion lleol i broblemau tai lleol.

Mae datgan ardal adnewyddu tai Aberteifi yn gam i'w groesawu o safbwynt adfywio cymunedol yn yr ardal. Dyma'r ardal adnewyddu tai gyntaf erioed i gael ei datgan yng Ngheredigion a bydd yn cyfrannu tuag at wella amodau byw ac amgylchedd y trigolion lleol.

Rhagwelir y bydd dogfennau strategaeth dai Powys a Cheredigion yn cael eu cyhoeddi dros y misoedd nesaf. Bydd y strategaethau yn nodi ac yn mesur y sefyllfa dai yn yr ardal yn y sectorau preifat a chyhoeddus, a byddant yn dylanwadu ar flaenoriaethau'r awdurdodau i'r dyfodol o ran tai.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gynorthwyo'r awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaeth tai effeithiol i'w holl drigolion, tenantiaid a pherchenogion yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

**Prosiectau Cymunedau yn Gyntaf yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brosiectau Cymunedau yn Gyntaf yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (WAQ31470)

**Edwina Hart:** Mae tua £2.9 miliwn wedi cael ei ddyfarnu i wahanol weithgareddau paratoadol ledled ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Mae'r ardaloedd hyn hefyd wedi elwa o £500,491 ychwanegol o gronfa ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf a thua £1.3 miliwn ar gyfer gweithgareddau chwarae ac adloniant i blant a phobl ifanc, a chynlluniau trafnidiaeth a diogelwch.

**Pennu y Nod Effeithlonrwydd Ynni i Gymru**

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pryd y mae'n bwriadu pennu y nod effeithlonrwydd ynni i Gymru yn unol ag adran 3 o Ddeddf Ynni Cynaliadwy 2003? (WAQ31471)

**Edwina Hart:** Mae'n ofynnol yn ôl y Ddeddf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bennu o leiaf un nod effeithlonrwydd ynni o fewn wythnos i ddarpariaethau'r Ddeddf ddod i rym yng Nghymru. Mae'n ofynnol hefyd yn ôl y Ddeddf i'r Cynulliad gymryd camau rhesymol i wireddu'r nod. Yr ydym ar hyn o bryd yn ystyried y ffordd orau o weithredu gofynion y Ddeddf i adlewyrchu ein blaenoriaethau presennol a'r rhwymedigaethau yr ydym wedi'u cyhoeddi cyn hyn.

**Gwrthod Cais am Grant (Cymunedau yn Gyntaf)**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pam y cafodd y cais am grant (£1,300) a wnaethpwyd gan gyngor tref Aberystwyth i gronfa Cymunedau yn Gyntaf ei wrthod? (WAQ31486) [R]

**Edwina Hart:** Nid yw cynghorau tref a chymuned yn gymwys i gael arian o gronfa ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf, gan mai i fudiadau gwirfoddol yn unig y mae'n agored. Nid cyfansoddiad mudiad gwirfoddol sydd gan gynghorau tref a chymuned, ac maent yn derbyn arian drwy drethi lleol neu oddi wrth awdurdodau lleol. Maent, mewn gwirionedd, yn gyrff statudol.

**Prosiectau Cymunedau yn Gyntaf (Cyngor neu Hyfforddiant)**

**Lisa Francis:** A yw'r cydgysylltwyr lleol sy'n rhan o brosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn derbyn cyngor neu hyfforddiant sy'n eu galluogi i roi cyngor i ymgeiswyr am grantiau? (WAQ31488) [R]

**Edwina Hart:** Gall cydgysylltwyr lleol Cymunedau yn Gyntaf geisio cyngor a chymorth oddi wrth rwydwaith cymorth Cymunedau yn Gyntaf a Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w galluogi i roi cyngor i'r rhai sy'n ymgeisio am grantiau. Yn ogystal, mewn nifer o ardaloedd ar draws Cymru, mae'r cynghorau gwirfoddol sirol hefyd yn rhoi cyngor i'r cydgysylltwyr.

**Mentrau i Ostwng Troseddu (Abertawe)**

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybodaeth am fentrau yn ardal Abertawe i ostwng lefelau troseddu? (WAQ31590)

**Edwina Hart:** Mae partneriaeth diogelwch cymunedol Abertawe yn parhau i gael effaith ar droseddu ac anhrefn yn yr ardal drwy ei strategaeth leol a chynlluniau sydd wedi'u targedu. Mae'n defnyddio ei dyraniad o gronfa Cymunedau yn Gyntaf y Cynulliad i ddarparu cyfarpar atal troseddu mewn rhai mannau i dawelu meddyliau'r cyhoedd am droseddu, sefydlu parth di-alcohol yng nghanol y ddinas, cerbyd teithiol gostwng lefel troseddu a nifer o gynlluniau i ymladd yn erbyn y niwsans a achosir gan bobl ifanc.

Law yn llaw â hyn, mae'r bartneriaeth yn defnyddio cronfa Creu Cymunedau Mwy Diogel y Swyddfa Gartref i ddarparu cynllun lleihau graffiti, prosiectau lleihau lefel y bwrgleraethau, cynllun ymwybyddiaeth o losgi bwriadol, system sy'n adnabod rhifau cofrestru cerbydau yn awtomatig, ymgyrch blismona dim goddefgarwch a phrosiectau tawelu meddyliau i ymdrin ag ofnau pobl ynglŷn â throseddu. Yn ychwanegol, bydd arian unedau gorchymyn sylfaenol y Swyddfa Gartref yn cael ei ddefnyddio i ddarparu plismyn mewn dwysfannau, cynllun trais sy'n gysylltiedig ag alcohol ar y strydoedd a chynllun troseddau ceir. Mae siopwyr bach agored i ddifrod mewn rhannau difreintiedig o'r ddinas yn elwa oddi

wrth arian gan y Swyddfa Gartref i ddarparu goleuadau diogelwch a chlwydi diogelwch cyfnerth. Mae'r bartneriaeth wedi creu uned ymddygiad gwrthgymdeithasol newydd, sy'n ddolen gyswllt ag asiantaethau eraill ac sydd â strwythurau i ddarparu ymateb cynhwysfawr i achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cael eu riportio.

O ran y rhai sydd yn y carchar, mae Abertawe yn flaenllaw yn y gwaith sy'n cael ei ariannu gan y Cynulliad ar ofal drwodd ac ôl-ofal carcharorion sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Darperir cyllid i gynnal gweithwyr cymorth yn y carchar i helpu troseddwyr i fagu sgiliau byw allweddol—cynllun cymorth pontio sy'n darparu gwasanaeth mentora i gamddefnyddwyr sylweddau pan gânt eu rhyddhau o'r carchar a phrosiect tŷ hanner ffordd Abertawe, a fydd yn darparu llety a phecyn cymorth dwys i garcharorion pan ryddheir nhw o'r carchar.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

### Cyfarfodydd y Cynulliad yn y Gogledd

**Brynle Williams:** A wnaiff y cynrychiolydd o Bwyllgor y Tŷ restru'r holl achlysuron lle bydd cyfarfodydd y Cynulliad yn cael eu cynnal yn y Gogledd? (WAQ31744)

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Mae'r cyfarfodydd Cynulliad sy'n cael eu cynnal yn y Gogledd gyda chymorth Swyddfa'r Llywydd fel a ganlyn:

- Cyfarfodydd pwyllgor—mae Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn cwrdd mewn gwahanol fannau yn ardal pob un o chwe awdurdod lleol gogledd Cymru yn ystod pob blwyddyn. Mae'r Pwyllgorau Pwnc yn ceisio cwrdd a chynnal ymweliadau ar draws Cymru. Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu ymweld â gogledd Cymru yn y dyfodol agos;

- Gwasanaeth gwybodaeth i'r cyhoedd—mae tîm rhanbarthol gwybodaeth i'r cyhoedd gogledd Cymru yn ymwneud ag aelodau'r cyhoedd a'r sector addysg mewn gwahanol leoliadau ar draws y Gogledd. Nod y tîm yw cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i waith. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaeth croesawu a derbyn yng nghyfarfodydd Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd. Mae'r tîm wedi'i leoli mewn swyddfa yn Llanelwy ar hyn o bryd, ond bydd yn symud i'r Swyddfa Llywydd newydd a'r ganolfan ymwelwyr ym Mae Colwyn erbyn dydd Llun, 2 Chwefror 2004. Cedwir rhestrau digwyddiadau o'r holl ymrwymiadau fydd yn cael eu cynnal yn fuan ac a gefnogir gan bob tîm rhanbarth. Maent ar gael oddi wrth reolwr y timau rhanbarth, Jacqui Bowen, rhif ffôn: 029 2089 8039 neu drwy e-bost jacqui.bowen@wales.gsi.gov.uk.

### Cynlluniau i Gynnal Cyfarfodydd y Cynulliad yn Lloegr

**Brynle Williams:** A oes gan y Cynulliad unrhyw gynlluniau i gynnal unrhyw gyfarfodydd yn Lloegr o ganlyniad i broblemau gydag adeiladau yn y Gogledd? (WAQ31745)

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid oes unrhyw gynlluniau o'r fath ar gyfer cyfarfodydd Cynulliad sy'n cael cymorth gan Swyddfa'r Llywydd.